

CYFARFOD CABINET: 16 MEHEFIN 2016

SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-16

ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO DROS DRO

EITEM AGENDA: 3

**PORTFFOLIO: ARWEINYDD (DATBLYGU ECONOMAIDD A
PHARTNERIAETHAU)**

Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Cymeradwyo a chytuno ar gynnwys Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg cyn ei gyflwyno yn unol â Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cefndir

2. Sefydlodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg). Mae'r safonau a gyhoeddir i Gyngor Dinas Caerdydd wedi'u rhestru yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gweler atodiad 1).
3. **Prif egwyddor y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth unigol neu'r gweithiwr i ofyn am wybodaeth neu wasanaethau yn Gymraeg.**
4. Mae'r safonau wedi'u rhestru yn y categorïau canlynol:

Safonau darparu gwasanaethau:

O ran darparu gwasanaethau er mwyn hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau creu polisi:

Mae angen i sefydliadau ystyried pa effaith gaiff eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau gweithredol:

Safonau sy'n delio â'r defnydd mewnol o'r Gymraeg gan sefydliadau.

Safonau hyrwyddo:

Safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fabwysiadu strategaeth yn nodi sut mae'n cynnig hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Safonau cadw cofnodion:

Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n angenrheidiol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan sefydliad. Bydd y cofnodion hyn yn cynorthwyo'r Comisiynydd o ran rheoleiddio cydymffurfiaeth y sefydliad gyda'r safonau.

5. Mae safonau'r Gymraeg wedi'u llunio gyda'r nod o:
 - Wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn Gymraeg
 - Cynyddu'r defnydd a wna pobl o wasanaethau yn Gymraeg
 - Ei gwneud hi'n glir i sefydliadau am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg
 - Sicrhau bod lefel o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar sefydliadau o fewn yr un sectorau.
6. Mae pob awdurdod lleol wedi cael hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd iaith sy'n rhestru'r safonau a'r dyddiad cydymffurfio y mae disgwyl i'r sefydliad gydymffurfio ag ef. Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi cael **171** safon, ac mae gan 155 ohonynt ddyddiad cydymffurfio o 30 Mawrth 2016.

Cyngor Dinas Caerdydd				
Categoriâu	Dyddiad cydymffurfio 30 Mawrth 2016	Dyddiad cydymffurfio 30 Medi 2016	Dyddiad cydymffurfio 30 Medi 2018	Cyfanswm
Darparu Gwasanaethau	85	3	0	88
Creu Polisi	16	0	0	16
Gweithredol	41	7	1	49
Cadw Cofnodion	13	1	0	14
Hyrwyddol	0	4	0	4
Cyfanswm	155	15	1	171

7. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n cynnwys y gofyniad i gynhyrchu Adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â'r safonau hyn.

Materion

8. Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg wedi'i gwblhau i ddiwallu gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur yr Iaith Gymraeg [Cymru] 2011)
9. Mae'n rhaid i'r Cabinet roi cymeradwyaeth er mwyn i'r adroddiad fynd i'r Cyngor cyn ei gyflwyno ar wefan y Cyngor erbyn y dyddiad cau o 30 Mehefin 2016.
10. Gan fod hwn yn adroddiad ar ein cydymffurfiaeth gyda safonau'r Gymraeg yn 2015-16 a gan na ddaeth y safonau i rym tan 30 Mawrth 2016 bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i baratoi i gydymffurfio â'r safonau newydd, yn ogystal â darparu gwybodaeth benodol y mae gofyn i ni ei wneud dan y safonau hyn fel y nodwyd yn adran goblygiadau cyfreithiol yr adroddiad hwn.
11. Gall y Comisiynydd Iaith ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chymryd camau gorfodi, gan gynnwys gosod cosb sifil, yna byddai angen cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r methiant hwn neu roi cyhoeddusrwydd i'r methiant.

Rhesymau dros yr Argymhellion

12. Mae Safon 158, 164 a 170 yn nodi bod rhaid i'r Cyngor greu adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r ffordd y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â darparu gwasanaethau, creu polisi a safonau gweithredol.

Goblygiadau Cyfreithiol

13. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyflwyno system newydd o reoleiddio drwy 'safonau' sy'n nodi sut y dylai sefydliad ddefnyddio'r Gymraeg ac wedi creu Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n ofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
14. Cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015 ar 24 Mawrth 2014 sy'n nodi safonau o ran gweithredoedd Cyngorau Sir. Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Cyngor ar 30 Medi 2015. Mae'n cynnwys 5 gwahanol fath o safonau; safonau darparu gwasanaethau; safonau creu polisi, safonau darparu gweithredol, safonau hyrwyddol a safonau cadw cofnodion.
15. Mae Safon 158 yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor greu adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r ffordd y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, yn yr un modd mae safon 164 yn nodi hyn mewn perthynas â'r safonau creu polisi ac mae safon 170 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer y safonau darparu gweithredol. Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol (gweler atodiad 2) gynnwys nifer y cwynion y mae'r Cyngor wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn honno oedd yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau (gweler atodiad 3), manylion am sgiliau Cymraeg staff y Cyngor, cyrsiau

hyfforddiant a gynigir ac a fynychir gan staff y Cyngor (gweler atodiad 4) a nifer y swyddi a hysbysebir gyda'r Gymraeg fel gofyniad (gweler atodiad 5). Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi dim hwyrach na 30 Mehefin ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, a rhaid iddo gael ei gyhoeddi a'i roi ar wefan y Cyngor yn ogystal â swyddfeydd y Cyngor.

16. Gall y Comisiynydd Iaith ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chymryd camau gorfodi, gan gynnwys gosod cosb sifil, yna byddai angen cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r methiant hwn neu roi cyhoeddusrwydd i'r methiant.

Goblygiadau Ariannol

17. Nid oes goblygiadau ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Os bydd angen gweithredu o ganlyniad i gynnwys yr adroddiad hwn, byddai angen dod o hyd i gostau cysylltiedig o'r gyllideb adnoddau bresennol.

ARGYMHELLION

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo Adroddid Blynyddol Safonau'r Gymraeg (a atodir fel Atodiad 2) a chytuno i'r adroddiad gael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor cyn ei gyflwyno yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011).

DAVID MARR SWYDDOG MONITRO DROS DRO SWYDDOG MONITRO DROS DRO

10 Mehefin 2016

Mae'r atodiadau canlynol ynghlwm:

Atodiad 1 – Hysbysiad Cydymffurfio Adran 44


Atodiad 2 – Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol 2015-16

Atodiad 3 – Cwynion

Atodiad 4 – Hyfforddiant Cymraeg

Atodiad 5 – Swyddi Cymraeg Hanfodol a Dymunol 2015-16

Atodiad 6 – Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 2012-17



HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Cyngor Dinas Caerdydd – Dyddiad Dyroddi: 30/09/2015

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn 6 mis.

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
1	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	30/03/2016
2	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi - (a) cadw cofnod o ddymuniad A, (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	30/03/2016
3	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os - (a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny	30/03/2016

		<p>ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;</p> <p>(b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.</p>	
4	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	30/03/2016
5	Cyflenwi Gwasanaethau	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	30/03/2016
6	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	30/03/2016
7	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddatgan -</p> <p>(a) mewn gohebiaeth, a</p> <p>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</p>	30/03/2016
8	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	30/03/2016
9	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch	30/03/2016

		prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	
10	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).	30/03/2016
12	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
14	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	30/03/2016
15	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	30/03/2016
16	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	30/03/2016
17	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	30/03/2016

18	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).	30/03/2016
20	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	30/03/2016
21	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyh yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	30/03/2016
22	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	30/03/2016
24	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	30/03/2016
24A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
26	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno	30/03/2016

		defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	
26A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod- (a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	30/03/2016
27	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2016
27A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	30/03/2016
27D	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
29	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y	30/03/2016

		cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	
29A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod - (a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod, (b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, ac (c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	30/03/2016
30	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2016
31	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	30/03/2016
32	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi - (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben	30/03/2016

		hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	
33	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg -</p> <p>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i bersonau eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod dim un person wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. 	30/03/2016
34	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2016
35	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	30/03/2016
36	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n	30/03/2016

		bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	
37	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
38	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
41	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg - (a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet; (b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd. Rhaid cydymffurfio â safon 41 (a) ymhob amgylchiad, ac eithrio: <ul style="list-style-type: none"> ○ papurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet. Rhaid cydymffurfio â safon 41 (b) ymhob amgylchiad, ac eithrio: <ul style="list-style-type: none"> ○ papurau eraill ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd. 	30/03/2016
42	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw drwydded neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.	30/03/2016
43	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei lunio	30/03/2016

		neu ei llunio yn Gymraeg.	
45	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n gymwys i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
46	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau'r ddwy fersiwn ar yr un pryd.	30/03/2016
47	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg - (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.	30/03/2016
48	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
49	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
50	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	30/03/2016
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
50B	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg,	30/03/2016

		a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	
52	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 52 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gwybodaeth catalog a contract ar y gwasanaeth gwe e-fasnach Basware. 	30/03/2016
55	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 55 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gwybodaeth catalog a contract ar y gwasanaeth gwe e-fasnach Basware. 	30/03/2016
56	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 56 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gwybodaeth catalog a contract ar y gwasanaeth gwe e-fasnach Basware. 	30/03/2016

57	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	30/03/2016
58	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
59	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	30/03/2016
60	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.	30/03/2016
61	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2016
62	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016
63	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	30/03/2016
64	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai	30/03/2016

		<p>ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2016:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Prif wasanaeth derbynfa'r corff <p>Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2016:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Pob gwasanaeth derbynfa arall. 	
67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	30/03/2016
68	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	30/03/2016
69	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	30/03/2016
70	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016
71	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	30/03/2016
72	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y	30/03/2016

		gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	
72A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	30/03/2016
74	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
75	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	30/03/2016
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. Rhaid cydymffurfio â safon 76 yn yr amgylchiadau isod: (a) Os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu (b) Os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu	30/03/2016

		y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.	
77	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
77A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).	30/03/2016
79	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
80	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	30/03/2016
81	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	30/03/2016
82	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
83	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r	30/03/2016

		Saesneg.	
84	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio: ○ pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.	30/03/2016
86	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.	30/03/2016
87	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	30/03/2016
88	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
89	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016

90	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
91	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
92	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
93	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
94	Llunio Polisi	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn	30/03/2016

		<p>ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	
95	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	30/03/2016

96	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
97	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
98	Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.	30/03/2016
99	Gweithredu	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	30/03/2016
100	Gweithredu	Rhaid ichi - (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/03/2016
105	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle,	30/03/2016

		rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	
106	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
107	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
108	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
109	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
110	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
111	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
112	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff - (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	30/03/2016
112A	Gweithredu	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff - (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	30/03/2016
114	Gweithredu	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;	30/03/2016

		(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	
115	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff - (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.	30/03/2016
116	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	30/03/2016
116A	Gweithredu	Rhaid ichi - (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.	30/03/2016
118	Gweithredu	Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y	30/03/2016

		cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	
119	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff - (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.	30/03/2016
120	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	30/03/2016
122	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd.	30/03/2016
124	Gweithredu	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen	30/03/2016

		uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	
125	Gweithredu	Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	30/03/2016
126	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnwyd yn Gymraeg.	30/03/2016
127	Gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	30/03/2016
130	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith - (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	30/03/2016
131	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.	30/03/2016
132	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu - (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.	30/03/2016
133	Gweithredu	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	30/03/2016
134	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl	30/03/2016

		neu'n dysgu'r iaith.	
135	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	30/03/2016
136	Gweithredu	Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys - (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	30/03/2016
136A	Gweithredu	Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi - (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.	30/03/2016
137	Gweithredu	Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
137A	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi - (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; (c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau	30/03/2016

		asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	
137B	Gweithredu	Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	30/03/2016
139	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi - (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).	30/03/2016
140	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.	30/03/2016
141	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y	30/03/2016

		testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	
142	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016
143	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	30/03/2016
144	Gweithredu	Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	30/03/2016
147	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	30/03/2016
148	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
149	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	30/03/2016
150	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
151	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y	30/03/2016

		cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	
153	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	30/03/2016
154	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	30/03/2016
155	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
156	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,	30/03/2016

		<p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	
157	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	30/03/2016
158	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p>	30/03/2016

		(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
159	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
160	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
161	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
162	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016

163	Atodol - Llundain Polisi	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	30/03/2016
164	Atodol - Llundain Polisi	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	30/03/2016
165	Atodol - Llundain Polisi	<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	30/03/2016

166	Atodol - Llundain Polisi	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
167	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
168	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnwyd.	30/03/2016
169	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer (i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnwyd.	30/03/2016
170	Atodol - Gweithredu	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg,	30/03/2016

		<p>mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);</p> <p>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn -</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn</p>	
--	--	--	--

		<p>ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	
171	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
172	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
175	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -	30/03/2016
		<p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	
176	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	30/03/2016

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn blwyddyn.

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
13	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau	30/09/2016

		canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	
44	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg - (a) polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol; (b) canllawiau a chodau ymarfer; (c) papurau ymgynghori.	30/09/2016
51	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	30/09/2016
101	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/09/2016
102	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/09/2016
103	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	30/09/2016
104	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi - (a) gwyliau,	30/09/2016

		(b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.	
123	Gweithredu	Bob tro y byddwch yn cyhoeddi tudalen newydd neu'n diwygio tudalen ar eich mewnwyd, rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â thestun y dudalen honno.	30/09/2016
128	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg - (a) recriwtio a chyf-weld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.	30/09/2016
129	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn - (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	30/09/2016
145	Hybu	Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -	30/09/2016

		<p>(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a</p> <p>(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;</p> <p>a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).</p>	
146	Hybu	<p>Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -</p> <p>(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a</p> <p>(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -</p> <p>(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;</p> <p>(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.</p>	30/09/2016
152	Cadw Cofnodion	<p>Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o -</p> <p>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a</p> <p>(b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.</p>	30/09/2016
173	Atodol - Hybu	<p>Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -</p>	30/09/2016

		(a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
174	Atodol - Hybu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/09/2016

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn 3 blynedd.

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
121	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnwyd.	30/09/2018

Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 30/09/2015

Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol 2015–16

O 30 Mawrth 2016 mae gan holl awdurdodau lleol Cymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylen nhw fel sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Sefydlodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg). Mae'r safonau a gyhoeddir yng Nghyngor Dinas Caerdydd wedi'u rhestru yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – gweler atodiad 1. Mae copi o'r safonau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn hefyd ar gael o www.caerdydd.gov.uk/Caerdydd-Ddwyeithog.

Mae'r safonau yn disodli cynllun iaith blaenorol y Cyngor a grëwyd fel un o ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Gan fod hwn yn adroddiad ar ein cydymffurfiaeth gyda safonau'r Gymraeg yn 2015-16 a gan na ddaeth y safonau i rym tan 30 Mawrth 2016 bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i baratoi i gydymffurfio â'r safonau newydd, yn ogystal â darparu gwybodaeth benodol y mae gofyn i ni ei wneud dan y safonau hyn.

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i wireddu ein gweledigaeth o greu prifddinas cwbl ddwyieithog i Gymru sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel yn Gymraeg a Saesneg i'n dinasyddion.

Rydym eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif o ofynion y safonau trwy ein Cynllun Iaith blaenorol felly rydym mewn sefyllfa cymharol dda i ddiwallu'r gofynion deddfwriaethol newydd oherwydd y gwaith a wnaethpwyd cyn cyflwyno'r safonau.

Prif egwyddor y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth unigol neu'r gweithiwr i ofyn am wybodaeth neu wasanaethau yn Gymraeg.

Mae'r safonau wedi'u rhestru yn y categorïau canlynol

- **Safonau darparu gwasanaeth:**

O ran darparu gwasanaethau er mwyn hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- **Safonau creu polisi:**

Mae angen i sefydliadau ystyried pa effaith gaiff eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- **Safonau gweithredol:**

Safonau sy'n delio â'r defnydd mewnol o'r Gymraeg gan sefydliadau.

- **Safonau hyrwyddo:**

Safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fabwysiadu strategaeth yn nodi sut mae'n cynnig hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

- **Safonau cadw cofnodion:**

Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n angenrheidiol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan sefydliad. Bydd y cofnodion hyn yn cynorthwyo'r Comisiynydd i reoleiddio cydymffurfiaeth y sefydliad gyda'r safonau.

Mae safonau'r Gymraeg wedi'u llunio gyda'r nod o:

- Wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynyddu'r defnydd a wna pobl o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Ei gwneud hi'n glir i sefydliadau am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg
- Sicrhau bod lefel o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar sefydliadau o fewn yr un sectorau.

Mae pob awdurdod lleol wedi cael hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd iaith sy'n rhestru'r safonau a'r dyddiad cydymffurfio y mae disgwyl i'r sefydliad gydymffurfio ag ef. Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi cael **171** safon, ac mae gan 155 ohonynt ddyddiad cydymffurfio o 30 Mawrth 2016.

Cyngor Dinas Caerdydd				
Categoriâu	Dyddiad cydymffurfio 30 Mawrth 2016	Dyddiad cydymffurfio 30 Medi 2016	Dyddiad cydymffurfio 30 Medi 2018	Cyfanswm
Darparu Gwasanaethau	85	3	0	88
Creu Polisi	16	0	0	16
Gweithredol	41	7	1	49
Cadw cofnodion	13	1	0	14
Hyrwyddol	0	4	0	4

Cyfanswm	155	15	1	171
-----------------	-----	----	---	------------

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd hyd yn hyn ac hefyd data allweddol y mae'n rhaid adrodd arno dan y safonau.

Caiff yr Adroddiad Monitro Blyneddol ei gytuno a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar **30 Mehefin 2016** cyn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion y safonau.

Bydd yr adroddiad ar gael yn ddwyieithog i'w lawrlwytho ar wefan y Cyngor o 30 Mehefin 2016 www.caerdydd.gov.uk/Caerdydd-Ddwyieithog

2. Cyflawniadau a Heriau

Cyflawniadau

- Gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i greu canolfan ddiwylliannol Gymraeg yng nghanol y ddinas ('Yr Hen Lyfrgell') a agorodd ym mis Chwefror 2016. Mae'r ganolfan yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, cyfleusterau yn ogystal â rhaglen lawn o weithgareddau gan gynnwys Caffi-Bar a bwyty, siop yn gwerthu cynhyrchion Cymraeg, crèche Cymraeg, gwersi Cymraeg i ddysgwyr, ardal berfformio, cyfleusterau cynadledda, ystafelloedd digwyddiadau ac amgueddfa Stori Caerdydd.
- Mae Caerdydd Ddwyieithog yn dychwelyd **94.2%** o geisiadau cyfieithu erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt (**5,069,914** o eiriau). Cyfieithodd y tîm fwy o eiriau nag unrhyw flwyddyn arall.
- Cafodd yr e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith corfforaethol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â 4 awdurdod lleol arall ei lansio ym mis Medi 2015. Hyd yn hyn mae **981** aelod o staff wedi ei gwblhau yn 2015-16.
- Hysbysebodd y Cyngor fwy o swyddi Cymraeg Hanfodol nag unrhyw flwyddyn arall (**52**) a **136** swydd arall lle roedd y Gymraeg yn ddymunol.
- Mae Caerdydd Ddwyieithog wedi prynu offer cyfieithu ar y pryd ac wedi hyfforddi 2 gyfieithydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn fewnol i'r holl wasanaethau yn ogystal â sefydliadau partner.
- Mae Caerdydd Ddwyieithog wedi creu cyfres o ganllawiau corfforaethol er mwyn helpu staff i gydymffurfio â'r safonau newydd a pharhau i gyhoeddi'r briif Cymraeg misol i holl staff y Cyngor (a ddosberthir trwy'r cydlynwyr Cymraeg) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau yn ymwneud â'r Gymraeg neu unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn erbyn y cynllun iaith/safonau'r Gymraeg.
- Mae **123** aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant iaith a ariennir yn gorfforaethol yn 2015-16.
- Hyrwyddwyd digwyddiad '*Diwrnod Shwmae*' llwyddiannus ar draws y Cyngor ym mis Hydref. Digwyddiad â'r nod o annog staff i gyfarch ei gilydd yn Gymraeg neu ddefnyddio unrhyw Gymraeg sydd ganddynt.
- Ymgyrch farchnata fewnol i godi ymwybyddiaeth staff o safonau'r Gymraeg ("Ydych chi'n barod am safonau'r Gymraeg?")
- Mae Caerdydd Ddwyieithog nawr yn cynnig gwasanaeth cyfieithu llawn i'n holl bartneriaid a sefydliadau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau, cynadleddau, cyfarfodydd a chyfweliadau yn ogystal â chyfieithu testun. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu hysbysebu ar wefan Yr Hen Lyfrgell <http://www.yrhenlyfrgell.cymru/gwasanaethau>

Heriau

Er nad ydym yn bwriadu herio unrhyw un o'r dyletswyddau ar hyn o bryd, rhaid nodi y gall nifer o'r safonau olygu her sylweddol i'r Cyngor, yn ariannol ac o ran adnoddau o bosibl, yn benodol:

Safon 62

Mae'r safonau'n ymwneud â sicrhau bod y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf ar yr holl arwyddion, y mae'r Cyngor yn ei gefnogi mewn egwyddor, ac ni wnaeth ei wrthwynebu yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, er y bydd arwyddion parhaol yn cael eu newid yn ystod gwaith cynnal a chadw ac yn gost niwtral, bydd angen i ni sicrhau bod contractwyr sy'n gweithio ar ran y Cyngor yn cydymffurfio â'r safon hon mewn perthynas ag arwyddion dros dro hefyd.

Safon 64

Mae'r safon hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni sicrhau bod ein prif dderbynfa yn gallu darparu gwasanaeth cyfartal yn Gymraeg a Saesneg o fewn 6 mis (30 Mawrth 2016) a'r holl dderbynfeydd eraill o fewn 9 mis (30 Medi 2016).

Mae bodloni gofynion y safon hon yn llawn o fewn yr amser a roddwyd yn gosod her sylweddol, yn bennaf gan fod siaradwyr Cymraeg wedi'u tangynrychioli yn ein gweithlu (4.7% yn 31 Mawrth 2016). Fodd bynnag, mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i gyflawni hyn gyda cham gweithredu i'r holl reolwyr asesu gallu eu tîm i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'w gynnwys yng nghynllun busnes pob Cyfarwyddiaeth ers Ebrill 2015. Fel rhan o'r asesiad cynigir gwersi Cymraeg a ariennir yn gorfforaethol i'r holl staff rheng flaen, gyda rheolwyr yn awyddus i uwch-sgilio'r gweithlu presennol er mwyn diwallu'r gofynion hyn yn y lle cyntaf.

Gellir hysbysebu swyddi 'Cymraeg Hanfodol' yn allanol er mwyn sicrhau bod y swyddi hyn yn cael eu llenwi gan staff dwyieithog gan gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu.

Mae safonau eraill a fydd yn heriol, fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn gymharol hapus gyda'r safonau yn ein Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol ac nid ydym yn bwriadu herio unrhyw un o'r safonau presennol. Mae gwaith ar y gweill i godi ymwybyddiaeth o'r safonau trwy sesiynau briffio'r tîm rheoli, y rhwydwaith cydlynwyr a hyrwyddwyr y Gymraeg, cylchlythyr misol 'Materion Cymraeg' i'r holl Gyfarwyddwyr yn ogystal ag fel eitem unigol yn y Briff Corfforaethol misol ac ar y dudalen Caerdydd Ddwyieithog ar y fewnwyd.

Gofynnwyd i reolwyr cyfarfodydd y tîm rheoli nodi risgiau yn eu Cyfarwyddiaeth eu hunain a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau busnes gwasanaethau 2016-17. Rhagwelir y bydd y dull hwn fel y cytunwyd yng nghyfarfod yr UDRh ar 27 Hydref 2015 yn sicrhau y byddwn mewn sefyllfa i fodloni'r mwyafrif, os nad y cwbl, o'r gofynion erbyn y dyddiad cau a bennwyd.

Pe bai ein sefyllfa sefydliadol yn newid yn sylweddol yn y dyfodol, efallai y byddai'n rhaid i ni ail-edrych ar y penderfyniad o beidio â herio dyletswyddau presennol neu yn y dyfodol.

3. Yr Hen Lyfrgell – Canolfan Ddiwylliannol Gymraeg Caerdydd

Cymeradwywyd creu Canolfan Ddiwylliannol Gymraeg Caerdydd yn Yr Hen Lyfrgell gan y Cabinet ar 28 Mai 2015.

Agorodd Canolfan Ddiwylliannol Gymraeg newydd ('Yr Hen Lyfrgell') yn adeilad Yr Hen Lyfrgell ym mis Chwefror 2016. Nod y ganolfan yw hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg fel iaith fyw yn y brifddinas mewn canolfan gyfeillgar a chroesawgar i holl ddinasyddion Caerdydd ac ymwelwyr. Mae'r Hen Lyfrgell yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau mewn awyrgylch gymdeithasol a chynhwysol lle mae'r iaith Gymraeg a diwylliant wrth wraidd popeth.

Mae caffi, bar a bwyty yno yn gweini bwyd a diod Cymraeg, siop yn gwerthu nwyddau Cymraeg o safon, siop lyfrau, crèche i blant, ystafelloedd addysgu yn cynnig cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg, ardal berfformio ac arddangos hyblyg, ac amgueddfa Stori Caerdydd.

Yn dangos 'y gorau o Gaerdydd a Chymru', mae'r Hen Lyfrgell yn ganolfan arloesol a chyffrous gyda'r nod o ddenu siaradwyr Cymraeg a'r rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg, o Gaerdydd a'r tu hwnt. Mae'n atyniad ymwelwyr unigryw lle defnyddir yr iaith Gymraeg i ddathlu popeth sy'n wych am Gymru a'i phrifddinas - ei diwylliant, ei threftadaeth a'i phobl.

Llwyddwyd i greu'r Hen Lyfrgell trwy waith partneriaeth effeithiol gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau yng Nghaerdydd - Menter Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Clwb Ifor Bach, Amgueddfa Stori Caerdydd, Mudiad Meithrin, Mela a Bodlon.

4. Cwynion yn erbyn y cynllun iaith / safonau'r Gymraeg 2015-16

Yn ystod 2015/16, derbyniwyd cyfanswm o **28** o gwynion mewn perthynas â gweithredu Cynllun yr Iaith Gymraeg (neu safonau'r Gymraeg). P'un a dderbyniwyd cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r weithdrefn gwyno gorfforaethol. Gweler hefyd **Atodiad 3**

Mae'r polisi Cwynion Corfforaethol wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar i adlewyrchu rhai gofynion a godwyd wrth gyflwyno safonau'r Gymraeg gan gynnwys cadarnhau bod y Cyngor yn croesawu cwynion yn Gymraeg a Saesneg, ac y bydd yn ymateb ym mha bynnag iaith y cysylltir â ni.

Mae'r polisi Cwynion Corfforaethol wedi'i gyhoeddi ac mae gofyn i'r holl gyfarwyddiaethau gwblhau Ffurflen Monitro Cwynion bob chwarter er mwyn adrodd ar gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Cynllun Iaith.

5. Swyddi a hysbysebwyd yn 2015/16

Yn ystod 2015/16 cafodd **991** o swyddi newydd a gwag eu hysbysebu yn unol â Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Corfforaethol y Cyngor. Gweler hefyd **Atodiad 5**

Cafodd **52** o swyddi eu hysbysebu lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

Cafodd **136** o swyddi eu hysbysebu lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

Cafodd **803** o swyddi eu hysbysebu lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

Cofiwch fod y ffigurau hyn hefyd yn cynnwys swyddi a ail-hysbysebwyd.

Nid oes gan y Cyngor wybodaeth ar hyn o bryd o ran sgiliau Cymraeg sydd angen eu dysgu ar ôl penodi i swyddi oherwydd dan Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor mae swyddi wedi'u dynodi fel Cymraeg hanfodol, dymunol neu ddim yn ofyniad. Rydym wedi cael achlysuron pan fo swyddi wedi cael eu hail-hysbysebu gyda'r gofyniad i'r ymgeiswyr llwyddiannus fynychu hyfforddiant iaith.

6. Hyfforddiant iaith a chyrsgiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae safon 128 wedi ei chyflwyno i Gyngor Dinas Caerdydd, ac mae hon yn nodi bod gofyn i ni ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os yw'r canlynol ar gael yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweliad;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau cwynion a disgyblu;
- Cyflwyniad i swydd;
- Delio â'r cyhoedd; a
- Iechyd a Diogelwch.

Y dyddiad cydymffurfio ar gyfer y safon hon yw 30 Medi 2016 felly nid yw staff sy'n mynychu hyfforddiant Cymraeg yn y meysydd a restrir uchod wedi'u cofnodi yn 2015/16.

Mynychodd **82** aelod o staff gyrsiau hyfforddiant iaith yn 2015/16 a **41** aelod o staff gwrs blasu 2 ddiwrnod ym Mehefin a Gorffennaf 2015

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn Hyfforddiant yr Iaith Gymraeg a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith eu monitro'n ofalus a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar DigiGov (system AD mewnol). Gweler **Atodiad 4** ar gyfer dadansoddiad o staff sydd wedi mynychu'r cyrsiau hyn.

Mae'r e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith wedi bod ar gael i bob aelod o staff ar wefan Cronfa Ddysgu Caerdydd ers mis Medi 2015.

Mae **981** aelod o staff wedi cwblhau'r modiwl ymwybyddiaeth iaith yn 2015-16

Mae **90** aelod o staff wedi dechrau ac wrthi'n gwneud y modiwl.

Mae **45** rheolwr lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi mynychu ein hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Mwy na Geiriau yn 2015-16.

7. Sgiliau Iaith Gweithwyr

Trwy gyflwyno DigiGov a rhoi'r cyfle i staff ddilysu eu data personol eu hunain, gall y Cyngor gofnodi gallu staff o ran yr iaith Gymraeg (ac ieithoedd eraill). O 31 Mawrth 2016, mae **6,368** aelod o staff (nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion) yn cael eu cyflogi gan Gyngor Dinas Caerdydd ac o'r rhain mae cyfanswm o **4,516** aelod o staff wedi rhoi eu manylion ar y system DigiGov. O'r rhain mae **216** aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli **4.78%** o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y system. Bydd angen cyflwyno DigiGov i rannau eraill o'r Cyngor hefyd (cyflogeion mewn ysgolion yn benodol), a fydd yn ein galluogi i fonitro'n ehangach. Mae erthyglau wedi'u cynnwys yn y briff Materion Cymraeg sy'n atgoffa staff o'r angen i ddiweddarau eu cofnodion ar DigiGov.

Anfonwyd llythyr arolwg i staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion yn Ebrill 2016 yn eu hysbysu o'r safonau ac yn gofyn iddynt nodi eu sgiliau iaith a'u dewis iaith. Bydd yr arolwg hwn yn cael ei anfon i staff ysgolion ar ddechrau 2016 ac i'r holl weithwyr newydd a fydd yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio'n llawn â gofynion safon 127 (asesu sgiliau iaith gweithwyr) a safon 100-104 (dewis iaith gweithwyr). Caiff y data a geir o'r ymarfer hwn ei adrodd yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2016-17.

8. Mwy na Geiriau - *Fframwaith Strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*

Adroddiad Cynnydd 2015 - 16

Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg wedi arwain at fwy o gyfrifoldeb corfforaethol o ran sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog yn y maes gofal cymdeithasol ac yn y cyngor yn gyffredinol.

Mae'r ddeddfwriaeth y tu ôl i Safonau'r Gymraeg wedi helpu i atgyfnerthu gofynion pwysig Mwy na Geiriau. Mae'r Strategaeth Ddilynol newydd ar gyfer Mwy na Geiriau a'i gynllun gweithredu ar gyfer 2016-19, yn cysylltu bob un o'i amcanion nawr i'r rhan berthnasol o Safonau'r Gymraeg.

Mae hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i ganolbwyntio ar bwysigrwydd anghenion iaith a'r cynnig actif ym maes gwasanaethau cymdeithasol, gyda phwyslais ar gefnogi'r staff i allu diwallu gofynion Mwy na Geiriau a Safonau'r Gymraeg.

Cyflawniadau yn 2015-16

- Cyfathrebu canllawiau corfforaethol ar Safonau'r Gymraeg i holl Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac i reolwyr gyda chyfrifoldebau penodol.
- Darparwyd sesiynau hyfforddi hanner diwrnod ar Ymwybyddiaeth Iaith gyda phwyslais ar Mwy na Geiriau i 45 o reolwyr o'r gwasanaethau oedolion a phlant (cyfanswm o 85 o reolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol).

Un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2016-17 fydd gweithio tuag at gwblhau'r gwaith o godi ymwybyddiaeth ymysg holl staff y gwasanaethau cymdeithasol.

- Darparwyd cyflwyniadau i'r rheolwyr darpariaeth gofal annibynnol ar ddisgwyliadau'r Strategaeth a Safonau'r Gymraeg. Hefyd, cynhaliwyd sesiynau ar bwysigrwydd anghenion iaith ym maes gofal cymdeithasol gydag israddedigion ar y cwrs gradd gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.
- Mae asesiadau sgiliau iaith wedi'u cwblhau i staff yn y gwasanaethau oedolion ac rydym yn gweithio tuag at gwblhau'r broses yn llawn yn y gwasanaethau plant.
- Gweithiwyd gyda thiwtor Cymraeg annibynnol i roi rhaglen hyfforddiant ynghyd ar Gymraeg sylfaenol ar gyfer staff gofal yn y maes gofal cartref.
- Gweithiwyd gyda rheolwyr gweithredu system cofnodi electronig (Care First) i sicrhau y gellir cofnodi dewis iaith a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gofnodi'r Cynnig Actif.
- Gweithio gyda'r tîm comisiynu i sicrhau bod y defnydd o'r iaith Gymraeg bellach yn cael ei gynnwys wrth fonitro cartrefi gofal. Mae monitro eisoes yn bodoli ar gyfer gwasanaethau gofal cartref trwy arolygon boddhad cwsmeriaid. Rydym eisoes yn edrych ar y goblygiadau cyfreithiol o ran cydymffurfiaeth y sector annibynnol a'r materion ehangach o gomisiynu ar gyfer yr holl wasanaethau gofal.
- Cynrychiolwyd yr Awdurdod Lleol mewn cyfarfodydd a gweithdai Hyrwyddwyr Iaith cenedlaethol ar gyfer Mwy na Geiriau yn ystod y flwyddyn.

- Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i Uwch Dîm Rheoli wedi cymryd diddordeb gweithredol yn y cynnydd o ran y gwaith hwn, gan ofyn am adroddiadau rheolaidd.
- Mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr a Chynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth yn cynnwys adrannau ar yr iaith Gymraeg ac mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflenwi yn cynnwys amcan i gynyddu capasiti'r Gyfarwyddiaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ystod 2016/17.

9. Monitro a Goruchwyllo Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Yn ystod Tachwedd 2015 gofynnwyd i'r holl Gyfarwyddiaethau gwblhau ymarfer mapio i nodi safonau sy'n gosod her i'w timau, ac i gynnwys camau perthnasol yn eu cynlluniau darparu gwasanaeth. Mae camau penodol mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau wedi'u cynnwys yng nghynlluniau busnes pob gwasanaeth ar gyfer 2016/17 yn ogystal â chamau'n ymwneud â sicrhau capasiti digonol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

System Gwella Caerdydd (CIS) fydd prif offeryn yr awdurdod ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r Safonau newydd. Bydd pob un o'r 171 safon yn cael eu grwpio a'u cofnodi fel camau gwella (IACTs) yn y gronfa ddata ofynnol ar CIS. Bydd pob cam yn ymddangos yn erbyn pob un o'r cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau bod y cyfarwyddiaethau yn ymwybodol o bob mesur, cyfrifoldeb a dyddiad targed. Bydd safonau mwy penodol ond yn cael eu dyrannu i'r Rheolwr perthnasol yn y Gyfarwyddiaeth berthnasol.

Bydd Cydlynwyr a Hyrwyddwyr Iaith Cyfarwyddiaethau sy'n edrych ar achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Safonau fel rhan o'u gwaith yn eu cofnodi fel Camau Gwella gofynnol (IACTs) ar CIS. Byddant yn gweithio i sicrhau bod y safonau a ddyrennir i'w Cyfarwyddiaeth yn cael eu cyflawni o fewn yr amser ac yn diweddarau'r system CIS fel sy'n briodol.

Bydd yr Hyrwyddwyr Iaith neu'r rheolwr perthnasol yn diweddarau cronfa ddata CIS i gofnodi sylwadau ar IACTs sy'n cyflawni'r targed neu sydd wedi'u cwblhau. Caiff gweithredoedd hwyr eu hadrodd gan y Cydlynwyr a'r Hyrwyddwyr a'u trafod yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli lle y bo'n briodol a chaiff camau eu diweddarau'n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod Rheolwyr ac Uwch Swyddogion yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ogystal â meysydd i'w gwella yn eu cyfarwyddiaeth.

Bydd materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu hadrodd trwy Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad a grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog.

10. Hyrwyddo a Hwyluso'r Safonau – Camau hyd yn hyn

Gweler isod fesurau ychwanegol sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion newydd sy'n arwain o safonau'r Gymraeg.

SAFONAU DARPARU GWASANAETH

CAMAU HYD YN HYN

COFNODI DEWIS IAITH

Mae system Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid (CRM) SAP wedi'i llunio i gofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth. Bydd gan bob Cyfarwyddiaeth neu wasanaeth gronfa ddata (e.e. Care First / Civica) sydd â'r gallu i gofnodi neu nodi dewis iaith ond ar hyn o bryd ni ellir rhannu neu drosglwyddo'r wybodaeth hon.

Aeth rhannau o C2C yn fyw yn ddiweddar gyda chronfa ddata CRM SAP sy'n rhoi trosolwg o'r cwsmer ac yn cofnodi dewis iaith yn erbyn cofnod y cwsmer pan fônt yn cysylltu â'r Cyngor. Mae cronfa ddata bresennol C2C yn gwneud hyn hefyd. Ar hyn o bryd ni ellir trosglwyddo'r wybodaeth ar y systemau hyn i gronfeydd data eraill neu i Gyfarwyddiaethau eraill. Y nod hir dymor yw cyflwyno'r systemau hyn i holl rannau'r cyngor lle y bo'n briodol.

Bydd gan bob Cyfarwyddiaeth gyswllt enwebedig a fyddai'n gallu gweld darn o gofnodion y cwsmer o'r ddwy system mewn ardal gydweithredol yn SharePoint.

GOHEBIAETH

Mae holl e-byst allanol y Cyngor yn ogystal â'r pennawd llythyr corfforaethol newydd yn cynnwys y datganiad canlynol yn y troednodyn er mwyn cydymffurfio â gofynion safonau 2, 3 a 7.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The Council welcomes correspondence in English and Welsh and we will ensure that we communicate with you in the language of your choice, whether that's English, Welsh or bilingual as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.

Mae'r canllawiau ar Gyfathrebu'n Ddwyieithog wedi'u cyhoeddi ar y dudalen Caerdydd Ddwyieithog ar y fewnwyd i gynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

GALWADAU FFÔN

Mae canllawiau staff newydd ar alwadau Cymraeg wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Mae'r mwyafrif o alwadau ffôn yn cael eu derbyn gan ganolfan gyswllt C2C y Cyngor sydd â thîm Cymraeg.

Ar y cyfeiriadur ffôn canolog, gall staff ddefnyddio hidlydd i weld yr holl siaradwyr Cymraeg yn eu gwasanaethau / Cyfarwyddiaethau.

CYFARFODYDD Mae canllawiau staff newydd ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewnol i'r holl Gyfarwyddiaethau a gwasanaethau.

DOGFENNAU A FFURFLENNI

Cyfarfodydd (41)

Bydd agendâu a chofnodion dwyieithog yn cael eu huwchlwytho trwy'r wefan CardiffModern.Gov .

Mae ffurflen gais cynnwys y we a ffurflen cais am gyfieithiad y Cyngor yn atgoffa bob aelod o staff i gynnwys y cymal canlynol yn unol â safonau 49 a 50A.

This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

This form is available in Welsh / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg.

ARWYDDION A HYSBYSIADAU

Bydd y Gyfarwyddiaeth Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth yn sicrhau bod y gofyniad arwyddion dwyieithog Cymraeg yn gyntaf yn cael ei gynnwys ym mhob tendr, contract perthnasol ac ati a bod y gofyniad hwn yn cael ei weithredu a'i fonitro. Mae'r gofyniad i'r testun Cymraeg ymddangos yn gyntaf hefyd wedi cael ei ailadrodd i'r holl gontractwyr.

Mae nodyn canllaw ar arwyddion a hysbysiadau wedi'u cyhoeddi i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion hyn.

GWEFANNAU A GWASANAETHAU AR-LEIN Caiff gofynion yr iaith Gymraeg eu hystyried yn weithredol fel rhan o unrhyw friff project neu fandad project newydd fel rhan o'r datganiad gofynion.

Bydd TGCh yn parhau i roi gwybod i gwsmeriaid fod ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu deunydd Cymraeg gyda phob project sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Maent yn rhoi gwybod am hyn yn ystod y cam briffio. Cyfrifoldeb y cwsmeriaid yw penderfynu a oes angen agweddau dwyieithog o unrhyw system newydd arnynt ar ôl cael y cyngor hwn felly eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau.

Bydd Tîm y We yn cynnal archwiliad o holl adrannau www.caerdydd.gov.uk i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chyhoeddi ar bob tudalen. Bydd hyn yn cynnwys gwirio tudalennau, ffurflenni, dogfennau, dolenni ac ati.

Mae opsiwn Saesneg / Cymraeg yn ymddangos ar adran llywio'r wefan. Mae'n darparu dolen uniongyrchol rhwng y cynnwys Saesneg a'r cynnwys Cymraeg cyfatebol.

GWASANAETHAU DERBYNFA

Mae canllawiau newydd ar wasanaethau derbynfa dwyieithog wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Rydym yn parhau i roi Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Gorfforaethol y Cyngor ar waith gyda'r nod o gynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg mewn swyddi rheng flaen. Mae'r Strategaeth hon yn sicrhau bod gofynion ieithyddol yr holl swyddi rheng flaen yn cael eu hasesu a'u dynodi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu heb ofyniad ieithyddol.

Cynhaliwyd ymarfer mapio o dderbynfeydd hybiau, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn 2015-16 i asesu ein cydymffurfiaeth bresennol â'r safonau. Mae'r canllawiau derbynfeydd dwyieithog hefyd wedi'u hanfon at holl reolwyr derbynfeydd.

Rydym yn parhau i gynnig pecyn hyblyg o gyrsiau Cymraeg a ariennir yn gorfforaethol i staff sy'n cael eu rhedeg gan Cymraeg i Oedolion (Prifysgol Caerdydd). Gall staff fynychu dros 100 o gyrsiau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ar adegau a lleoliadau sy'n addas iddyn nhw a'u gwaith.

DYFARNU GRANTIAU

Mae dogfennau grant perthnasol wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd a gofynnir i bob un sy'n gwneud cais am grant am eu dewis iaith.

DYFARNU CONTRACTAU

Mae manylebau tendrau wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd.

Bydd "Canllaw Gwerthu i'r Cyngor" newydd yn cynnwys y datganiad canlynol.

"Yn unol â Safonau'r Gymraeg (Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Adran 44 Mesur Iaith (Cymru) 2011) gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg neu Saesneg. Ni chaiff tendr a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas â'r raddfa amser ar gyfer hysbysu tendrwy'r o benderfyniadau). Bydd y Cyngor yn cyfathrebu gyda chyflwynwyr tendr yn eu dewis iaith, p'un a bod hynny'n Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog."

Bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewnol mewn unrhyw gyfweiliadau tendr, a bydd yr Amodau a

Thelerau safonol ar gyfer contractwyr gwasanaeth yn cynnwys cymal newydd yn cyfeirio at y gofynion deddfwriaethol newydd.

Mae swyddogion yn adran gyfreithiol y Cyngor wedi cael eu cyfarwyddo i gynnwys y cymal Cymraeg newydd canlynol ym mhob contract.

Yn ystod **Cyfnod** y **Cytundeb** mae'r **Contractwr** yn cytuno y bydd yn cydymffurfio â gofynion:

- ***Mesur Iaith (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd (Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur Iaith (Cymru) 2011 o ran ei berthnasedd i **ddarparu/cynnal **** (Gwasanaethau, Gwaith, Grant)**.***
- ***Mae copi o safonau'r Gymraeg ar gael o www.caerdydd.gov.uk/Caerdydd-Ddwyeithog***

CYRSIAU A GYNIGIR GAN GORFF

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi cysylltu â'r holl ddysgwyr i ofyn am eu dewis iaith (86) a chynnwys cwestiwn ychwanegol o ran hyn ar eu ffurflenni gwerthuso. Mae copi o'r arolwg ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor.

HYRWYDDO A HWYLUSO

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r broses o roi'r safonau ar waith, mae'r Cyngor wedi creu canllawiau newydd i staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o'r 'Safonau Darparu Gwasanaethau'
- Cyfathrebu'n Ddwyeithog
- Gwasanaeth Derbynfa Dwyieithog
- Cynnal Cyfarfodydd yn Ddwyeithog
- Galwadau Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Dwyieithog
- Canllawiau Cyfieithu

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar y dudalen Caerdydd Ddwyeithog ar y fewnwyd ac maent wedi bod yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd i staff drwy sianeli cyfathrebu sefydledig gan gynnwys y briff misol a'r cylchlythyrau 'Materion Cymraeg' a ddsberthir i bob aelod o staff. Mae erthyglau rheolaidd hefyd wedi ymddangos ar hafan mewnwyd y Cyngor.

Cyn i'r safonau ddod i rym, cydlynodd y tîm cyfathrebu a thîm Caerdydd Ddwyeithog ymgyrch hyrwyddol sy'n cynnwys erthyglau rheolaidd, sesiynau galw heibio i staff a phosteri ym mhrif swyddfeydd y Cyngor.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i staff ar y dudalen Caerdydd Ddwyeithog ar y fewnwyd yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau monitro blynyddol, a ffurflen cais am gyfieithiad ar-lein.

Mae'r ffurflen gais cynnwys y we a'r ffurflen cais am gyfieithiad wedi cael eu diweddarau i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2,3 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

CYNGOR CYFIEITHU A PHOLISI

Mae tîm Caerdydd Ddwyeithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg a chyfieithu ar y pryd i holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Mae'r tîm yn cynnig canllawiau a chyngor i holl staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor dan y safonau statudol.

CYDLYNWYR A HYRWYDDWYR Y GYMRAEG

Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a hyrwyddwyr y Gymraeg ar draws ein Cyfarwyddiaethau, sy'n cefnogi gwaith Caerdydd Ddwyeithog o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg. Mae rôl yr aelodau yn cynnwys

- Sicrhau bod eu Cyfarwyddiaeth yn cydymffurfio â safonau iaith Gymraeg y Cyngor.
- Adborth ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gan y Gyfarwyddiaeth i'r grŵp, ac fel arall os oes angen.
- Adborth ar unrhyw gwynion neu faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i'r grŵp.
- Dosbarthu dogfennau a gwybodaeth berthnasol o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol eu Cyfarwyddiaeth.

Mae'r rhwydwaith cydlynwyr yn cwrdd bob mis.

GRŴP AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG

Grŵp traws-blaid yw Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyeithog a sefydlwyd i gymryd rôl arweiniol o ran datblygu Caerdydd cwbl ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Dinas Caerdydd gael gwasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn gyfartal trwy waith partneriaeth gwell. Yn ystod 2015-16 fe wnaeth y grŵp gwrdd ddwywaith i drafod materion Cymraeg, yn bennaf datblygiad y Ganolfan Ddiwylliannol Gymraeg newydd yn Yr Hen Lyfrgell yng nghanol y ddinas. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer canol Mehefin lle bydd yr aelodau yn ystyried model y grŵp ar gyfer y dyfodol gyda'r nod o fynd â'r agenda yn ei blaen.

CAERDYDD DDWYIEITHOG: STRATEGAETH 5 MLYNEDD

Yn unol â safon 145, bydd y Cyngor yn creu a chyhoeddi strategaeth pum mlynedd erbyn 30 Medi 2016 sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn unol â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 2012-17 – **gweler atodiad 6.**

Y STRATEGAETH SGILIAU IAITH GORFFORAETHOL

Cafodd y Strategaeth Sgiliau Iaith ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn, gyda chefnogaeth lawn yr Undebau, yn 2009. Diben y strategaeth yw sicrhau bod gennym staff â'r sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Mae'r strategaeth yn darparu offeryn ymarferol i helpu rheolwyr i asesu eu gofynion Cymraeg, fel bod modd hysbysebu rhai swyddi fel 'Cymraeg hanfodol' a chynnig hyfforddiant iaith i staff presennol.

HYFFORDDIANT IAITH GYMRAEG

Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o dros 100 o gyrsiau cymeradwy ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, yn amrywio o ddechreuwr llwyr i siaradwyr rhugl ar adeg a lleoliad sy'n addas iddyn nhw.

Mae cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i staff Cyngor Caerdydd (rhoddir blaenoriaeth i staff rheng flaen) a chaiff staff eu horiau'n ôl am fynychu cyrsiau.

SAFONAU CREU POLISI

CAMAU HYD YN HYN

Mae'r Offeryn Integreiddio Polisi wedi'i ddatblygu'n **Offeryn Sgrinio Polisi Statudol** i adlewyrchu'r cyd-destun polisi esblygol. Mae nifer o ofynion statudol yn gymwys os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd yn y Cyngor sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn, neu fethu â dangos sylw dyledus iddynt, olygu y gallai'r Cyngor wynebu her gyfreithiol neu geryddon o fathau eraill.

Bydd cwblhau'r Offeryn Sgrinio Polisi yn sicrhau bod holl strategaethau, polisiâu a gweithgareddau Cyngor Dinas Caerdydd yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Pan fo angen rhoi ystyriaeth fanylach i fater, bydd yr Offeryn Sgrinio yn nodi a oes angen cynnal asesiad llawn o'r effaith, fel y bo'n berthnasol.

Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisiâu neu weithgareddau eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Bill Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru

- Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu – Cydymdrechu
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Aseiad o'r Effaith ar Iechyd
- Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Aseiad Amgylcheddol Strategol

Bydd yr Offeryn Sgrinio Polisi hwn yn galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion yr holl ddarnau hyn o ddeddfwriaeth fel rhan o ddull sgrinio integredig na fydd yn cymryd mwy nag awr i'w gwblhau fel arfer. Yn bwysicach byth, bydd yn sicrhau bod dull y Cyngor yn un cydgysylltiedig a gwybodus.

Mae'r Offeryn yn rhan o'r broses gorfforaethol. Rhaid i'r holl adroddiadau y mae angen penderfyniad cabinet llawn arnynt gwblhau blaengynllun i ddechrau. Roedd y blaengynllun yn nodi a oes angen i'r strategaeth/polisi neu weithgaredd fod yn destun offeryn sgrinio ai peidio. Os oes angen, caiff y broses ei chwblhau cyn i'r adroddiad fynd i'r cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol.

Caiff yr offeryn ei ddiweddarau'n barhaus wrth i swyddogion perthnasol â chyfrifoldeb dros feysydd penodol amlygu unrhyw newid i'r amgylchedd polisi. Er enghraifft, caiff yr offeryn ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw ofynion penodol o bolisiau'r Cyngor sy'n tarddu o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn y ffordd hon gallwn annog proses gydgysylltiedig o wneud penderfyniadau a sicrhau bod unrhyw waith datblygu a wneir yn y Cyngor yn ymwybodol o ofynion ehangach a'r effaith bosibl ar faterion pwysig megis yr iaith Gymraeg.

I sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan ganolog o unrhyw waith datblygu polisi mae hefyd wedi'i chynnwys ochr yn ochr â'r 9 nodwedd a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb Unigol ac mae'n rhan amlwg o Mae Pawb yn Bwysig (Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor). Mae hyn yn galluogi'r iaith Gymraeg i gael ei phrif-ffrydio gyda'r 9 nodwedd a ddiogelir ym mhob rhan o'r sefydliad.

O fewn yr offeryn sgrinio ei hun, mae adran sy'n annog ystyriaeth o unrhyw effaith (cadarnhaol, negyddol, niwtral neu ansicr) ar yr iaith Gymraeg. Gweler isod:

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project yn cael effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r canlynol:

- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodasau a Phartneriaethau Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

- Hil
- Crefydd/Cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Yr iaith Gymraeg

Gellir cwblhau'r Offeryn Sgrinio fel hunanasesiad neu fel rhan o sesiwn a hwyluswyd, pe bai angen cymorth pellach.

Fel dadansoddiad allweddol, mae nifer o strategaethau, cynlluniau a gweithgareddau pwysig (megis y Cynllun Corfforaethol) wedi'u hystyried trwy'r offeryn sgrinio statudol sydd wedi helpu gyda datblygu polisi; fodd bynnag mae'n bwysig bod ymwybyddiaeth ehangach o rai o'r gofynion statudol yn cael ei hyrwyddo. Mae'n bwysig bod swyddogion ym mhob rhan o'r Cyngor yn deall naws a diben y ddeddfwriaeth, a gwneir llawer o'r gwaith hwn trwy academi Caerdydd, yn enwedig cyrsiau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a chyrsiau'r iaith Gymraeg.

Mae'r Offeryn Sgrinio Polisi Statudol wedi'i ddiwygio i fodloni gofynion penodol y safonau Creu Polisi.

I gydymffurfio â'r safonau newydd, mae'r offeryn sgrinio bellach yn gofyn:

Rhan 4: Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

		✓	x	<i>Ddim yn siŵr</i>
4.1	<i>Ydych chi wedi ystyried sut y gellid ffurfio'r polisi er mwyn i'r penderfyniad polisi gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg?</i>			
4.2	<i>Ydy'r polisi'n sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal i'r iaith Saesneg?</i>			

Os oes gennych unrhyw amheuan am eich atebion i'r cwestiynau uchod, cysylltwch â'r tîm Caerdydd Ddwyeithog am gyngor ar (029) 2087 2527 neu e-bost: Caerdydd-Ddwyeithog@caerdydd.gov.uk

Gellir sicrhau bod pob asesiad a gwblheir ar gael, ac mae prosesau wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr holl strategaethau, polisiâu a gweithgareddau newydd yn cael eu hasesu, os oes angen, drwy'r Offeryn Sgrinio. Mae'r Cyngor wedi helpu i wneud yn siŵr bod yr offeryn sgrinio yn ystyriaeth gorfforaethol, a bod yr holl gyfarwyddiaethau yn ei ystyried wrth ddatblygu polisiâu, strategaethau a gweithgareddau newydd. Y gwasanaethau

perthnasol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Tîm Corfforaethol yn ymwybodol o ddiweddariadau priodol ar gyfer meysydd polisi penodol.

SAFONAU GWEITHREDOL

CAMAU HYD YN HYN

98 Polisi ar hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fewnol

Mae polisi drafft ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith wedi'i gyhoeddi ar dudalen Caerdydd Ddwieithog ar y fewnwyd hyd nes i'r polisi gael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

99 Swyddi Newydd

Ar hyn o bryd cynigir contractau i gyflogeion newydd yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'u dewis iaith.

100-104 Gohebiaeth a Dogfennaeth Cyflogaeth Staff

Anfonwyd llythyr arolwg at bob aelod o staff ym mis Ebrill 2016 yn eu hysbysu o'u hawliau dan y safonau, yn ogystal â gofyn i staff gofnodi eu sgiliau iaith a'u dewis iaith.

105-111 Polisiâu AD

Mae'r polisiâu a nodir yn safonau 105-111 ar gael yn ddwyeithog.

112-119 Cwynion a Disgyblu

Mae polisi disgyblu a phenderfynu y Cyngor wedi'i ddisodli gan bolisi penderfynu newydd o Ebrill 2016. Bydd yn cynnwys cyfeiriad at hawliau staff sy'n dymuno cael gwybodaeth/proses benodol yn Gymraeg.

Dan Safonau'r Gymraeg, mae gan bob cyflogai yr hawl i wneud cwynion, ac ymateb i gwynion neu honiadau a wnaed yn eu herbyn drwy'r broses ddisgyblu yn y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gohebiaeth, dogfennau ac unrhyw weithdrefnau, cyfarfodydd a chanlyniadau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd cysylltiedig oni bai eu bod yn cael eu cynnal yn Gymraeg

heb wasanaethau cyfieithu.

120 Meddalwedd Mae Cysgliad ar gael i bob aelod o staff sydd â chyfrifiadur personol fel rhyngwyneb bwrdd gwaith, a hysbysebir y ffaith ei fod ar gael yn aml yn y Cylchlythyr Materion Cymraeg ac erthyglau yn 'Your Inbox'. Gall staff ofyn am gopi trwy'r Ddesg Gwasanaeth. Mae Windows ac Office hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae cyngor ar osodiadau newid iaith hefyd ar gael gan TGCh.

121-126 Y Fewnrwyd

Bydd TGCh, Cyfathrebu a Chaerdydd Ddwyieithog yn gweithio i sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei ddyletswydd i ddatblygu safle mewnrwyd cwbl ddwyieithog i staff o fewn y dyddiadau cydymffurfio a nodir.

127 Asesu sgiliau iaith Anfonwyd llythyr arolwg i staff yn Ebrill 2016 yn eu hysbysu o'r safonau ac yn gofyn iddynt nodi eu sgiliau iaith a'u dewis iaith.

Ar hyn o bryd mae staff yn cael eu hatgoffa i ddilysu eu data personol eu hunain ar DigiGov (system AD), ac mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi gallu staff o ran yr iaith Gymraeg (ac ieithoedd eraill).

128-132 Hyfforddiant

Rydym yn cwblhau trefniadau i sicrhau y gall staff yn y dyfodol wneud cais i dderbyn eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â 128.

Gellir cydymffurfio â'r safon hon hefyd trwy safle e-hyfforddiant yr Academi Cymru Gyfan sydd ar gael i bob aelod o staff yn ogystal â'r posibiliad o weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yn Ne Ddwyrain Cymru i drefnu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o dros 100 o gyrsiau cymeradwy ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, yn amrywio o ddechreuwr pur i siaradwyr rhugl ar adeg a lleoliad sy'n addas iddyn nhw.

Mae cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i staff Cyngor Caerdydd (rhoddir blaenoriaeth i staff rheng flaen) a chaiff staff eu horiau'n ôl am fynychu cyrsiau.

Hyfforddiant Ar-lein Ymwybyddiaeth iaith Mae'r e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith wedi bod ar gael i bob aelod o staff ar wefan Cronfa Ddysgu Caerdydd ers mis Medi 2015.

Nod y cwrs yw i staff:

- Ddeall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg o ran darparu gwasanaethau'r Cyngor yng Nghymru.
- Deall eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain o ran darparu gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut maent yn darparu gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd ar gyfer gwella.
- Deall a gallu defnyddio geiriau a chymalau Cymraeg syml a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg.

136 – Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd wag.

Mae'r strategaeth sgiliau iaith yn darparu offeryn ymarferol (offeryn asesu ieithyddol) i helpu rheolwyr i asesu gofynion Cymraeg eu tîm, fel bod modd hysbysebu rhai swyddi fel 'Cymraeg hanfodol' a chynnig hyfforddiant iaith i staff presennol.

Caiff rheolwyr eu hatgoffa i gwblhau'r ffurflenni asesu ieithyddol bob tro y caiff swydd newydd ei recriwtio trwy system DigiGov AD.

Oherwydd nifer y swyddi a hysbysebir gan y Cyngor (991 ac eithrio ysgolion yn 2015-16) mae AD a Caerdydd Ddwyieithog yn ymchwilio i'r posibilrwydd o integreiddio'r swyddogaeth hon (offeryn asesu ieithyddol) i broses recriwtio DigiGov.

137-140 – Ffurflenni Cais

Mae ffurflenni presennol wedi'u diweddarau i gydymffurfio â'r gofynion newydd. Mae llythyrau cynnig cyfweiliad yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull asesu arall.

141-143 Arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff

Mae nodyn canllaw ar arwyddion a hysbysiadau wedi'u cyhoeddi i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion hyn.

144 – Cyhoeddiadau a negeseuon llafar yng ngweithle corff

Mae'r gofyniad wedi'i gynnwys yng nghynllun gweithredu safonau'r Gymraeg Gwasanaethau Pobl AD.

HYRWYDDO A HWYLUSO

Mae Gwasanaethau Pobl AD wedi creu cynllun gweithredu i roi'r 'Safonau Gweithredol' ar waith.

Anfonwyd llythyr arolwg at bob aelod o staff yn eu hysbysu o'u hawliau dan y safonau, yn ogystal â gofyn i staff gofnodi eu sgiliau iaith a'u dewis iaith.

	Dyddiad	Cwyn	Gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth
1	Ebrill 2015	Llythyr uniaith Saesneg wedi'i anfon gan yr adran Priffyrdd	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
2	Ebrill 2015	Arwyddion ffordd dros dro Saesneg yn Unig – Heol y Gadeirlan / Plas Plasturton	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
3	Ebrill 2015	Arwyddion ffordd Saesneg yn unig ger y BBC yn Llandaf	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
4	Ebrill 2015	Cwsmer wedi cwyno am safon wael y Gymraeg mewn llythyr yn hyrwyddo Proms Cymru.	Datblygu Economaidd
5	Mai 2015	Methiant i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar gynllun Cyd Cymru (Ilinell gymorth Ynni)	GWEITHREDIADAU'R DDINAS
6	Mai 2015	Ynghylch yr Uned Gosodiadau Cymdeithasol (yn yr adran tai) ynghylch peidio â gofyn am ddewis iaith, cael cynnig cyfweiliad yn Gymraeg neu gael ffurflenni yn Gymraeg	CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETHAU CWSMERIAID
7	Mehafin 2015	Methiant i ddarparu gwasanaeth Cymraeg / gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg ar gyfer gwrandawriad apêl ysgol.	ADDYSG A DYSGU GYDOL OES
8	Mehafin 2015	Cymraeg anghywir ar ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor	CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETHAU CWSMERIAID
9	Gorffennaf 2015	Cwyn yn gysylltiedig â methiant Consortiwm Addysg Canol a De Cymru i ddarparu adnodd Cymraeg	ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

10	Gorffennaf 2015	Derbyniodd C2C 2 gŵyn yn gysylltiedig â llythyrau Saesneg yn unig mewn perthynas ag Ysgol Howardian (Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion).	ADDYSG A DYSGU GYDOL OES
11	Gorffennaf 2015	Llythyr traffig Saesneg yn unig.	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
12	Gorffennaf 2016	Llythyr Saesneg yn unig yn gysylltiedig â Lawnt Fowlio Parc Fictoria wedi'i anfon at breswylwyr.	Parciau, Chwaraeon a'r Awdurdod Harbwr (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
13	Awst 2015	Ymateb testun awtomatig gan y Gwasanaeth Etholiadol yn Saesneg yn unig	Gwasanaethau Etholiadol (LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL)
14	Awst 2015	Cwyn o ran methiant yr adran Priffyrdd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
15	Medi 2015	Arwydd llwybr troed Saesneg yn unig ar Taith Taf.	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
16	Hydref 2015	Cwyn o ran ymateb Saesneg yn unig a anfonwyd gan yr adran Priffyrdd a safon cyffredinol y gwasanaeth. Mae'r achwynydd hefyd yn honni bod yr adran draffig wedi dweud wrtho nad oedd gan y Cyngor bolisi iaith Gymraeg.	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
17	Tachwedd 2015	Llythyr Saesneg yn unig wedi'i anfon gan yr adran Addysg (cyllid y Blynyddoedd Cynnar). Mae'r achwynydd yn honni ei bod yn cael llythyrau Saesneg yn aml er gwaetha'r ffaith ei bod yn cwblhau'r ffurflenni yn Gymraeg.	ADDYSG A DYSGU GYDOL OES
18	Tachwedd 2015	Llythyr Saesneg yn unig wedi'i anfon gan yr adran Rheoli Plâu i breswylwyr yn Grangetown.	Amgylchedd
19	Tachwedd	Cwyn mewn perthynas â diffyg ffurflenni dwyieithog ar gyfer y "cynllun 60+" yng	Hamdden a Chwarae

	2015	Nghanolfan Hamdden Maendy.	(GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
20	Rhagfyr 2015	Llythyr atgoffa Saesneg yn unig wedi'i anfon gan y Swyddfa Gofrestru.	Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestru (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
21	Rhagfyr 2016	Hysbysiad Saesneg yn unig wedi'i anfon gan y gwasanaethau cofrestru mewn perthynas â threfnu priodas.	Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestru (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
22	Ionawr 2016	Dim ffurflenni Cymraeg ar gael yng Nghanolfan Hamdden Llanisien. Mae'r achwynydd hefyd yn nodi'r diffyg posteri ac arwyddion dwyieithog	Hamdden a Chwarae (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
23	Chwefror 2016	Arwyddion ffordd dros dro Saesneg yn unig yn Llandaf.	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
24	Chwefror 2016	Cwyn am y papurau cabinet a cardiff.moderngov.co.uk Papurau a thudalennau ond ar gael yn Saesneg	Gwasanaethau Democraataidd (LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL)
25	Chwefror 2016	Arwyddion ffordd dros dro Saesneg yn unig ar Heol Casnewydd.	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
26	Mawrth 2016	Arwyddion maes parcio Saesneg yn unig y tu allan i adeilad Tîm Anableddau Dysgu Caerdydd (Market Rd, Treganna)	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
27	Mawrth 2016	Cwyn pellach yn gysylltiedig ag arwyddion ffordd dros dro Saesneg yn unig ym Mae Caerdydd.	Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth (GWEITHREDIADAU'R DDINAS)
28	Mawrth 2016	Cwyn yn gysylltiedig â chwrs Hebryngydd. Deunydd Saesneg yn unig wedi'i roi a thystysgrifau Saesneg yn unig. Holodd yr achwynydd am yr angen i ddarparu'r cwrs yn Gymraeg oherwydd nifer y siaradwyr Cymraeg oedd yn bresennol.	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaeth	Blasu	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedredd
Gwasanaethau Plant	1	1	1			1
Gweithrediadau'r Ddinas		4	2		1	
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	2	11	5	2		
Gwasanaethau Democrataidd	1					1
Datblygu Economaidd	2	1		1		
Addysg a Dysgu Gydol Oes		2			1	
Cyllid		1	2			
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1	6	3			1
Gwasanaethau Pobl AD		3	2	1		
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol		1	3		1	
Rheoliadol		1			3	
Adnoddau		1				
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant		6		3	1	1
Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth	1					
IS-GYFANSWM	8	38	18	7	7	4
CWRS 2 DDIWRNOD MEWNOL RHAGFLAS AR Y GYMRAEG	41					

CYFANSWM	123

Mae'r swyddi sydd wedi eu huwcholeuo'n wyrdd yn ailhysbydiadau

GWASANAETH	CYFEIRNOD SWYDD
Gwasanaethau Plant	CH50003467
Gwasanaethau Plant	CH50003478
Gwasanaethau Plant	CH50217978
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006013
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50023406
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50024031
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50221084
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50221931
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50223750
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50223752
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	HS50005328
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50009949
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50215889
Gwasanaethau Plant	CH50230962
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50004074
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006991
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50220351
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50228884
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235040
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235041
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235120
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235799
Yr Amgylchedd	EN50235762
Yr Amgylchedd	EN50235763
Yr Amgylchedd	EN50235802
AD - Gwasanaethau Pobl	HR50186833
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50177204
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50205288
Gwasanaethau Plant	CH50235996
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006959
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50215390
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50224438
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229745
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50230468
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235512
Gwasanaethau Democrataidd	DS50166772
Yr Amgylchedd	EN50235762
Yr Amgylchedd	EN50235763
Datblygu Economaidd	ET50235755
Datblygu Economaidd	ET50236496
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50009943
Cynllunio Strategol, Prifffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth	ST50009885

Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006004
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006963
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006986
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50196455
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50220350
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50232144
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50233390
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235091
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50215427
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235498
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235847
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237038
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237189
Gwasanaethau Democrataidd	DS50236333
Datblygu Economaidd	ET50009404
Datblygu Economaidd	ET50177204
AD - Gwasanaethau Pobl	HR50186833
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	HS50004222
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	HS50005339
Newid a Gwella	RS50236334
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50008007
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50009954
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50067519
Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	SC50156208
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50023240
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50023248
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50217976
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006967
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50186177
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50215431
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50226823
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237409
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237411
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237414
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237416
Gwasanaethau Democrataidd	DS50237462
AD - Gwasanaethau Pobl	HR50186763
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50234432
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50237321
Gweithrediadau'r Ddinas	ST50009883
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50023242
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235847
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50007000
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50186177
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50196453

Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229913
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229744
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229745
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50233329
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50234302
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235499
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237416
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237839
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237840
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237841
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50237842
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	DS50237462
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	DS50237836
Datblygu Economaidd	ET50236496
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50008075
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50008244
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50234432
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50003435
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50106020
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50186172
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50234302
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235847
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	DS50237836
Datblygu Economaidd	ET50009351
Datblygu Economaidd	ET50009369
Datblygu Economaidd	ET50236597
Adnoddau	RS50237262
Adnoddau	RS50237263
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50237321
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006201
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235089
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50210791
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50215431
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229186
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	DS50006801
Datblygu Economaidd	ET50009358
Datblygu Economaidd	ET50009376
Datblygu Economaidd	ET50219468
Datblygu Economaidd	ET50219575
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50008525
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50009953
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50003463
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50003770
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50004231
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50232144

Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50234302
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235091
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235503
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235847
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50240375
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	DS50236478
Gwasanaethau Cymdeithasol	HS50005339
Adnoddau	RS50234337
Adnoddau	RS50237263
Addysg a Dysgu Gydol Oes	ED50237367
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50003770
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50023355
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50186178
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50196458
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229531
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229533
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50232859
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50232864
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235120
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235503
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	DS50236478
Addysg a Dysgu Gydol Oes	ED50221311
Addysg a Dysgu Gydol Oes	ED50228823
Addysg a Dysgu Gydol Oes	ED50230349
Gweithrediadau'r Ddinas	EN50233025
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50008020
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50008021
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006006
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50023355
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50215387
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50220034
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50233326
Addysg a Dysgu Gydol Oes	ED50049550
Datblygu Economaidd	ET50109329
AD - Gwasanaethau Pobl	HR50186834
Gweithrediadau'r Ddinas	SC50008021
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50003475
Gwasanaethau Cymdeithasol	CH50003770
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50006205
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50149482
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50186177
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50223719
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50224441
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50228889
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50229532

Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50235092
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50240820
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50241096
Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid	CS50241098
Addysg a Dysgu Gydol Oes	ED50010420
Gweithrediadau'r Ddinas	EN50150229
Gweithrediadau'r Ddinas	EN50235760
Gweithrediadau'r Ddinas	EN50235763
Datblygu Economaidd	ET50009637
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	LS50241206
Adnoddau	RS50237263

TEITL SWYDD	NIFER Y SWYDDI YCHWANEGOL
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol / Prosesydd Geiriau	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Swyddog Gwasanaethau Nos Hosteli	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	3
Cynorthwy-ydd Gwasanaeth Cwsmeriaid (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Cynorthwyol Gwasanaethau Hosteli	0
Hyfforddwr	0
Swyddog Cyngori	1
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	0
Cynorthwy-ydd Therapi Galwedigaethol	0
Dirprwy Swyddog Cofrestru a Chenedligrwydd	0
Cynorthwy-ydd Canolfan	11
Cynorthwy-ydd Gweinyddol - Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaet	0
Swyddog Cyswllt	1
Cynorthwy-ydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	0
Hyfforddai Budd-daliadau	4
Swyddog Cyngori	0
Cydlynnydd Cyswllt Cyntaf	0
Rheolwr Hyb Dan Hyfforddiant	0
Swyddog Cyngori - (Gwasanaethau Landlordiaid)	3
Arweinydd Tîm (Canolfan Reoli)	0
Swyddog Cyfathrebu Ailgylchu	2
Swyddog Cyfathrebu Ailgylchu - (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Gwastraff (Cymraeg Hanfodol)	1
Ymgynghorydd Gwasanaethau Pobl (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Dogfennaeth (Stori Caerdydd)	0
Swyddog Datblygu Hamdden - Polisi	0
Swyddog Adolygu Annibynnol	0
Uwch Gynorthwy-ydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	1
Cynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	5
Swyddog Cyngori	3
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	1
Llyfrgellydd Plant a Chymraeg	0
Llyfrgellydd Datblygu Cymdogaethau	0
Archifydd	0
Swyddog Cyfathrebu Ailgylchu	2
Swyddog Cyfathrebu Ailgylchu (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Swyddog Profiad Ymwelwyr	0
Cynorthwy-ydd Cymorth (Gweinyddu a Marchnata)	0
Uwcharolygydd Cofrestru	0
Syrfewr Rheoli Adeiladu	1

Rheolwr Gwasanaethau Hosteli	0
Cynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	0
Uwch Gynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	0
Swyddog Hyb	0
Hyfforddai Budd-daliadau	4
Uwch Gynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmer (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Swyddog Hyb	0
Swyddog Hyb (Datrysiadau Tai)	1
Swyddog Hyb (Cymraeg Hanfodol)	0
Rheolwr Hyb Cynorthwyol	1
Gweithredwr y Ganolfan Reoli (ARC/CCTV) (Cymraeg Hanfodol)	0
Cynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	5
Swyddog Adfywio	0
Intern Cadwraeth	0
Technegydd (SDH/NT)	0
Curadur Casgliadau	0
Ymgynghorydd Gwasanaethau Pobl (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Cydlynnydd Cymorth Cymunedol	0
Cynorthwy-ydd Canolfan (Benywaidd yn Unig)	0
Cofrestrydd Llanw	0
Cynorthwy-ydd Canolfan	0
Cynorthwy-ydd Canolfan	2
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol / Prosesydd Geiriau	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Cynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	4
Swyddog Hyb (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Hyb	0
Swyddog Dyraniadau	0
Rhentu Doeth Cymru - Swyddog Hyfforddiant (Cymraeg Hanfodol)	1
Rhentu Doeth Cymru - Swyddog Hyfforddiant	2
Rhentu Doeth Cymru - Swyddog Trwyddedu (Cymraeg Hanfodol)	5
Rhentu Doeth Cymru - Swyddog Trwyddedu	33
Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Etholiadol (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Ymgynghorydd Darparu Gwasanaethau - Rheoli	0
Swyddog Cymorth Actif (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Cymorth Cyfleusterau	1
Syrfewr Rheoli Adeiladu (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Gweithredwr Canolfan Reoli (ARC/CCTV) (Cymraeg Hanfodol)	0
Cynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmeriaid (Cymraeg Hanfodol)	1
Swyddog Hyb (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Hyb	0

Swyddog Hyb (Llyfrgell)	0
Uwch Swyddog Hyb	0
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	1
Swyddog Cynghori (I Mewn I Waith)	0
Swyddog Hyb (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Hyb	2
Rhent Doeth Cymru - Swyddog Trwyddedu	
Rheolwr Hyb	0
Uwch Swyddog Hyb	0
Mentor Gwirfoddolwr	0
Uwch Swyddog Cynghori (Bancio)	0
Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Etholiadau (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Gyfieithydd	1
Cynorthwy-ydd Cymorth (Gweinyddu a Marchnata)	0
Cynorthwy-ydd Canolfan	1
Cynorthwy-ydd Canolfan (Benywaidd yn Unig)	0
Swyddog Cymorth Actif (Cymraeg Hanfodol)	0
Gweithiwr Cymdeithasol (Cymraeg Hanfodol)	1
Rheolwr Gwasanaeth	0
Swyddog Hyb	0
Swyddog Hyb (Cymraeg Hanfodol)	0
Gweithredwr Canolfan Reoli (ARC/CCTV) (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Gyfieithydd	1
Cynorthwy-ydd Swyddfa Docynnau (Cymraeg Hanfodol)	1
Technegydd Llwyfan	0
Swyddog Cyfathrebu a Phrojectau	0
Cynorthwy-ydd Cymorth Fflyd	0
Cynorthwy-ydd Cymorth Fflyd (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Cymorth Cyfleusterau	0
Hyfforddai Budd-daliadau	1
Swyddog Hyb (Datrysiaid Tai)	0
Rheolwr Hyb Cynorthwyol	0
Swyddog Hyb	0
Cydlynnydd Gwirfoddolwr Cynhwysiant Digidol	0
Cyfieithydd	0
Cynorthwy-ydd Swyddfa Docynnau (Cymraeg Hanfodol)	0
Cynorthwy-ydd Rhaglennu a Gweithredoedd	0
Rheolwr Ymgyrchoedd	0
Goruchwylydd Blaen Tŷ (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Drefnydd Chwarae	0
Cynorthwy-ydd Clercol	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Swyddog Gofal Plant Preswyl	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	1
Uwch Gynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmeriaid (Cymraeg Hanfodol)	0

Swyddog Hyb (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Hyb (Datrysiadau Tai)	0
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	0
Gweithredwr Canolfan Reoli	0
Uwch Swyddog Hyb	0
Uwch Swyddog Cyfreithiol (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Gynorthwy-ydd Clercol	0
Prentis Corfforaethol (TGCh)	0
Cynorthwy-ydd Cymorth Fflyd (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Cymorth Lleoliadau Gofal Plant	0
Swyddog Gofal Plant Preswyl	0
Swyddog Cyswllt (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Hyb	0
Swyddog Hyb	1
Hyfforddai Tai (Cymraeg Hanfodol)	1
Hyfforddai Tai	1
Swyddog Rhestr Aros	0
Cydlynnydd Ymweld	0
Swyddog Cynghori (Gwasanaethau Landlordiaid)	3
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	0
Uwch Swyddog Cyfreithiol (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Gynorthwy-ydd Addysgu	3
Seicolegydd Addysgol Arbenigol	0
Cynorthwy-ydd Canolfan Achrededig a'r Gweithlu	0
Prentis Corfforaethol (Casglu Gwastraff)	1
Derbynnydd	3
Derbynnydd (Cymraeg Hanfodol)	0
Swyddog Gwasanaethau Hosteli	1
Swyddog Cyswllt (Cymraeg Hanfodol)	0
Cynorthwy-ydd Gwasanaeth Cwsmeriaid (Cymraeg Hanfodol)	1
Uwch Gynorthwy-ydd Gwasanaeth Cwsmeriaid	1
Swyddog Cynghori (I Mewn I Waith)	1
Athro Arbenigol (Y Blynnyddoedd Cynnar)	0
Ceidwad Drws Llwyfan	1
Ymgynghorydd Gwasanaethau Pobl (Cyswllt)	0
Derbynnydd (Cymraeg Hanfodol)	0
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	0
Swyddog Gofal Plant Preswyl	1
Hyfforddai Budd-daliadau	1
Cynorthwy-ydd Hawliadau Newydd	0
Swyddog Hyb (Cymraeg Hanfodol)	0
Uwch Swyddog Cynghori	0
Swyddog Cynghori (Cynhwysiant Digidol)	1
Hyfforddai Cynghori	0
Hyfforddai Tai (Cymraeg Hanfodol)	0

Swyddog Hyb (Datrysiaidau Tai)	0
Cydlynnydd Cyngtori	0
Swyddog Hyb	1
Swyddog Dyraniadau	0
Swyddog Cyllid a Gweinyddol	0
Swyddog Strategaeth a Lleihau Gwasraff	0
Swyddog Cyfathrebu Ailgylchu	2
Swyddog Cyfathrebu Ailgylchu (Cymraeg Hanfodol)	0
Technegydd Llwyfan	0
Cyfieithydd	1
Cynorthwy-ydd Cymorth Fflyd	0

GRADD	STATWS	CYMRAEG	MEWNOL / ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 7	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 7	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 9	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 6	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 6	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Dros dro	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 10	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 7	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL

Gradd 8	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 5	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 6	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 7	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Essential	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 7	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 2	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 7	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 7	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL

Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2*	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 8	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2*	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 7	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 7	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 10	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 7	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	EXTERNAL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 6	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL

Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 7	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
NMW	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Dros dro	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 7	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 6	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Soulbury 3 - 8	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
NMW	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 3	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 6	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
MPS	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 2	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Parhaol	Hanfodol	2016/1633335
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Dymunol	ALLANOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 3	Dros dro	Dymunol	ALLANOL
Gradd 3	Dros dro	Hanfodol	ALLANOL

Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 7	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 5	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	MEWNOL
Gradd 4	Parhaol	Hanfodol	MEWNOL
Gradd 5	Dros dro	Dymunol	MEWNOL
Gradd 6	Parhaol	Hanfodol	ALLANOL
Gradd 4	Parhaol	Dymunol	ALLANOL




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Iaith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012–17



laith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012–17

- Cynulleidfa** Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartion eraill â diddordeb.
- Trosolwg** **Deddf Llywodraeth Cymru 2006:** Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Fe'i paratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth hon yn disodli *laith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003). Nid yw *laith Pawb* bellach yn weithredol.
- Oes y strategaeth:** Mae hon yn strategaeth ar gyfer cyfnod o bum mlynedd, o 1 Ebrill 2012 hyd 31 Mawrth 2017. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a fydd yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn y strategaeth hon yn ystod pob blwyddyn ariannol.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1307
e-bost: Strategaethlaith@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: DfESWales1@prolog.co.uk
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/yygymraeg
- Dogfennau cysylltiedig** *Rhaglen Lywodraethu 2011–16* (Llywodraeth Cymru, 2011); *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2012)

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyd-destun	7
Edrych yn ôl: effaith gweithgareddau'r gorffennol	11
Edrych tua'r dyfodol: strategaeth newydd	14
Maes strategol 1: Y teulu	25
Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc	28
Maes strategol 3: Y gymuned	33
Maes strategol 4: Y gweithle	37
Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg	40
Maes strategol 6: Y seilwaith	45

Rhagair y Gweinidog

Ro'n i wrth fy modd pan gefais i'r cyfrifoldeb am bortffolio'r Gymraeg gan y Prif Weinidog ym mis Mai 2011. Fel dysgwr brwd, rwyf wedi ymddiddori'n fawr yn yr iaith ers fy nghyfnod fel myfyriwr ym Mangor yn y 1970au. Mae'r iaith yn bwysig i bob un ohonon ni yng Nghymru ac, yn ôl y polau piniwn, mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn deyrngar i'r iaith ac yn ei chefnogi. Rhaid i ni ymdrechu, bob amser, i gael consensws gwleidyddol ynghylch beth sydd angen ei wneud i ddatblygu'r iaith a'i chryfhau. Cafodd y strategaeth hon ei pharatoi felly drwy fynd ati'n fwriadol i ddefnyddio'r strategaeth ddrafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un fel sylfaen.

Hoffwn gydnabod y cyfraniadau a wnaed gan bawb, yn enwedig aelodau'r Grŵp Cynghori ar Strategaeth y Gymraeg a sefydlwyd gan Alun Ffred Jones, y cyn Weinidog dros Dreftadaeth. Bu eu cyfraniad yn allweddol wrth lunio'r strategaeth derfynol, a chefais innau foddhad o gadeirio'r tri chyfarfod a gynhaliwyd gennym ers mis Mai 2011.

Dros y degawdau, cafodd y Gymraeg ei chynnal diolch i ymroddiad unigolion a chymunedau sydd wedi gweithio gyda'i gilydd mewn sefydliadau amrywiol ac ar weithgareddau amrywiol, boed yn lleol ac yn genedlaethol – a hynny'n aml dan bwysau mawr. Mae ein diolch yn ddyledus i'r unigolion a'r cymunedau hynny, ac rydym yn cydnabod eu cyfraniad. Am bron i ugain mlynedd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg fu'n arwain ar hyn, a dylem ddiolch hefyd i aelodau presennol a chyn-aelodau'r Bwrdd, a chydabod eu cyfraniad hwythau. At hynny, dylid cydnabod bod parhad y Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif ac ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain yn brawf pendant bod gwleidyddiaeth yn gallu dwyn y maen i'r wal.

Fodd bynnag, mae datblygiad a pharhad y Gymraeg yn y dyfodol yn dibynnu ar ymroddiad pobl Cymru, a rhaid i bob un ohonon ni wneud ein rhan. Ni ddylid dibynnu ar y bobl hynny sy'n cael eu cyflogi i ddatblygu neu hybu'r iaith yn unig i'w diogelu. Rhaid i ni sicrhau hefyd ein bod yn annog pobl i ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd ganddynt – ac osgoi cyfrannu at sefyllfa lle mae yna deimlad ymhlith rhai na allant wneud hynny am nad yw eu Gymraeg yn ddigon da.

Y perygl mewn unrhyw faes yw mai buddiannau cyfundrefnol neu sefydliadol naturiol y bobl hynny sy'n ymwneud yn broffesiynol â'r maes hwnnw fydd yn tra-arglwyddiaethu wrth ddatblygu polisi. O ran yr iaith, rhaid i ni osgoi gormod o fiwrocratiaeth wrth ein gwaith a sicrhau ein bod yn datblygu mentrau sy'n ennyn diddordeb pobl ar lawr gwlad. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol yn rhan o fywyd bob dydd. Rhaid i ni chwilio am leisiau newydd i ddatblygu polisi iaith yn y dyfodol. Hoffwn i weld cynghrair yr anghonfensiynol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a monitro'r strategaeth newydd hon.

Cafodd fframwaith ei osod yn sgil datganoli ar gyfer math newydd o ddemocratiaeth, ac atebolwydd newydd, yng Nghymru. Cafodd hyn ei gadarnhau gan ganlyniad refferendwm 2011. Dylai lleisiau mwyaf dylanwadol y dyfodol fod yn ymrwymedig i hybu'r drefn agored newydd yn hytrach na chynnal yr hen drefn.

Eleni, byddwn yn dathlu deng mlynedd ar hugain ers darllediad cyntaf S4C. Bydd yr achlysur hwn yn ein hatgoffa bod cefnogaeth wleidyddol ac ymgyrchu ar lawr gwlad wedi bod yn hanfodol o'r dechrau'n deg er mwyn hybu a diogelu'r iaith. Penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r gorau i fformiwla cyllido S4C, a osodwyd mewn statud, heb gynnal trafodaeth gyhoeddus effeithiol, yw'r peth mwyaf niweidiol i ddiwydd i'r Gymraeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. O ganlyniad, bydd cyllideb yr iaith o leiaf £60 miliwn yn llai dros y pum mlynedd hyd at 2014–15. Yn sgil methiant Awdurdod S4C i fanteisio i'r eithaf ar y pwysau cyhoeddus a gafwyd ar draws y pleidiau yng Nghymru i amddiffyn yr hyn oedd yn rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth y DU, daeth yn amlwg mai sefydliad ydyw sy'n perthyn i'r oes cyn datganoli o ran ei feddylfryd ac sydd wedi methu deall realiti'r sefyllfa yng Nghymru ar ôl datganoli. Nid yw darlledu wedi'i ddatganoli, ac nid yw'n bolisi gan Lywodraeth bresennol Cymru i geisio am ddatganoli darlledu. Ar y llaw arall, mae'n amlwg, o ran polisi iaith o leiaf, fod angen i Lywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar effaith polisi darlledu ar y Gymraeg. Rydym o'r farn y bydd arweinwyr newydd Awdurdod S4C, a'r Sianel ei hun, yn ymateb i'r pryderon hyn.

Aeth Llywodraeth newydd Cymru, a gafodd ei hethol ym mis Mai 2011, ati'n ddi-oed i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Lai na chwe mis wedi i'r Llywodraeth newydd gael ei sefydlu, roedd swydd Comisiynydd y Gymraeg wedi'i hysbysebu, y cyfweliadau wedi'u cynnal, a'r ymgeisydd llwyddiannus wedi'i benodi. Cyhoeddwyd ar 5 Hydref 2011 mai Meri Huws fydd yn arwain swyddfa'r Comisiynydd o 1 Ebrill 2012 ymlaen. Bydd yn hyrwyddwr cadarn a brwdfrydig dros yr iaith, gan weithio gyda sefydliadau i gynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a chynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Bydd y Comisiynydd yn datblygu safonau newydd ar gyfer y Gymraeg a fydd yn gosod dyletswyddau ar amrywiaeth eang o sefydliadau: i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, i sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn rhan annatod o waith datblygu polisiau, ac i ddatblygu strategaethau a fydd yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Bydd safonau hybu'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru, ac awdurdodau lleol ledled Cymru i annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a chefnogi ac annog y cymunedau

y maent yn eu gwasanaethu i'w defnyddio. Unwaith eto, hoffwn bwysleisio fy mod yn benderfynol o gyflwyno'r safonau newydd cyn gynted â phosib. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'r Comisiynydd i sicrhau bod modd gwneud hynny.

Bydd y system safonau yn rhoi cyfle i ni ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r iaith. Rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau i blant a phobl ifanc ar gael yn y Gymraeg. Mae angen mwy o wasanaethau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg arnon ni. Rhaid i ni sicrhau bod mwy o benderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud gan gadw mewn cof yr angen am wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rhaid i ni roi'r gorau i feddwl am y Gymraeg yn nhermau cyfieithu a'i hystyried yn rhan naturiol o fywyd bob dydd yng Nghymru.

Yn sgil diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, bydd gan Lywodraeth Cymru rôl ganolog a phwysig iawn i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Byddaf am weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr Urdd, y mentrau iaith, awdurdodau lleol ac eraill, a fydd yn gallu cyfrannu at y gwaith sydd o'n blaenau. Gyda'n gilydd, rhaid i ni roi anadl einioes newydd i'r iaith – gan weithio'n galed i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud a'i gefnogi gennym mor effeithiol â phosib.

Gan fod Llywodraeth Cymru'n Un wedi cyhoeddi *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* ym mis Ebrill 2010, nid yw'r strategaeth hon yn edrych yn fanwl iawn ar y system addysg. Fodd bynnag, dylid ei darllen ar y cyd â'r strategaeth honno. Ers i'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* gael ei chyhoeddi, cafodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei sefydlu'n ffurfiol. At hynny, mae Llywodraeth newydd Cymru wedi ymrwymo yn ei maniffesto i wneud Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn statudol. Ym mis Rhagfyr 2011, derbyniodd Llywodraeth Cymru adroddiadau gan yr awdurdodau lleol yn dweud i ba raddau roedden nhw'n llwyddo i gyrraedd eu targedau o gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg ac sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod darpariaeth y dyfodol yn cael ei chynllunio'n effeithiol.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, rhaid i ni sicrhau bod rhieni/gofalwyr a theuluoedd yn deall yn well sut gall yr iaith fod o fudd i'w plant er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau, ar sail gwybodaeth, ynghylch magwraeth ac addysg eu plant. Rhaid i ni sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynllunio a'i darparu yn unol ag ewyllys y rhieni/gofalwyr. Mae angen i ni ddarparu rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, ac annog rhieni/gofalwyr sy'n siarad Cymraeg i'w defnyddio gyda'u plant. Rwy'n benderfynol o fwrw ymlaen ar hyn cyn gynted â phosib er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu.

Un o'r newidiadau mwyaf ers y strategaeth ddrafft a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2010 yw'r sylw ychwanegol sy'n cael ei roi i'r cyfryngau newydd. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, gwelsom fod y cyfryngau darlledu wedi chwarae rôl bwysig, drwy gyfrwng y radio a'r teledu, yn datblygu ac yn diogelu'r Gymraeg. Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae'r ffaith bod modd defnyddio'r cyfryngau digidol a'r apps Cymraeg nid yn unig yn caniatáu i'r iaith ffynnu ond hefyd yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan gyflawn yn yr oes ddigidol sydd ohoni. Maent hefyd yn dangos i bawb fod y Gymraeg yn gyfrwng modern, creadigol, grymus, sy'n gallu addasu.

Dylai sicrhau bod modd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio cyfryngau electronig drwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, fod yn uchelgais gennym; ni ddylem ddisgwyl llai na hynny. Dylai hynny fod yn bosib at ddibenion diwylliannol, dod o hyd i wybodaeth, adloniant, hamdden, siopa, cynnal trafodion, neu at ddibenion cymunedol neu rwydweithio cymdeithasol.

Mae pethau'n newid yn syfrdanol o gyflym. Fis Rhagfyr 2011, cafodd yr e-lyfrau Cymraeg cyntaf eu lansio ar gyfer Kindle; cafodd app ei lansio ar yr iPad ar gyfer cylchgrawn *Golwg*; a bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymgynghori ar y derminoleg Gymraeg i'w defnyddio ar Twitter – hyn oll mewn mis.

Mae'n siŵr y bydd rhywfaint o'r datblygiadau hyn yn cael eu hysgogi gan y galw ymhlith defnyddwyr a mentrau ar gyfer defnyddwyr. Serch hynny, mae'n debyg y bydd anghysondeb yn y datblygiadau hyn felly mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae drwy arwain ar hyn.

Ansawdd sy'n allweddol yn y maes hwn, fel mewn cynifer o feysydd eraill. Pam ddylai siaradwyr Cymraeg fodloni ar wasanaethau nad ydynt yn cyrraedd y safon uchaf bosib? Pam hefyd ddylai Llywodraeth Cymru roi cymhorthdal i wasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg os nad yw'r gwasanaethau hynny o'r un safon â'r gwasanaethau y gallent eu cael drwy gyfrwng y Saesneg? Er enghraifft, os nad yw cwsmeriaid sy'n defnyddio gwefan Cyngor Llyfrau Cymru yn cael gwasanaeth sydd yr un mor foddhaol â'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Amazon, oni fyddai'n well i ni fel Llywodraeth geisio datblygu rhyngwyneb Cymraeg gydag Amazon a fydd yn cynnig profiad o'r safon uchaf, a buddsoddi yn hwnnw? Ni ddylai profiad cwsmeriaid o ddefnyddio'r Gymraeg fod yn eilradd ei safon – dylai fod o'r safon uchaf bosib.

Ar y llaw arall, cynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr a rhaglenni a luniwyd gan siaradwyr Cymraeg eu hunain sydd y tu ôl i lawer o'r datblygiadau mwyaf cyffrous yn y deunydd digidol Cymraeg sydd ar gael ar-lein. Sut mae harneisio'r brwdfrydedd a'r ymrwymiad hwn? Unwaith yn rhagor, mae angen meddwl y tu hwnt i'r sefydliadau confensiynol

sydd wedi bod yn weithgar dros y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf a gwrando ar y lleisiau newydd.

Rhaid i ni fod yn uchelgeisiol; i fyny bo'r nod. Ni allwn adael dyfodol yr iaith yn nwylo'r sefydliadau hynny sydd eisoes wedi ennill eu plwyf ac sydd wedi datblygu diwydiant ar sail eu hanghenion cyfyng eu hunain yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dylem fod yn llafar dros y Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd yn hyn o beth, gan gymryd camau i sicrhau bod pobl fwyaf dylanwadol y farchnad yn sicrhau bod y Gymraeg i'w gweld ar bob platfform, ac ym mhob agwedd ar fywyd.

Wrth weithio ar y strategaeth newydd hon, mae un ystadegyn wedi bod yn flaenllaw yn fy meddwl i. Mae ein hystadegwyr wedi asesu bod Cymru yn colli rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn. Dylai'r strategaeth newydd hon, ynghyd â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, fod yn fan cychwyn i wrth-droi'r tueddiad hwnnw.

Daeth i'r amlwg hefyd, hyd yn oed wrth edrych ar brofiadau ehangach gwledydd eraill, nad oes llawer o dystiolaeth empirig ynglŷn â'r effaith a gaiff rhaglenni unigol ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill. O ganlyniad, mae'n anodd bod yn wrthrychol wrth asesu pa mor effeithiol y bu'r rhaglenni hyn, naill ai'n unigol neu ar y cyd. Mae'n anodd hefyd werthuso'n briodol pa mor debygol y byddai gweithgarwch fel hwn o lwyddo yn y dyfodol. Gan hynny, mae angen i ni ddatblygu fframwaith gwerthuso cadarn i gyd-fynd â'r strategaeth hon.

Bydd rhai pobl yn ei chael hi'n anodd darllen rhai agweddau penodol ar y strategaeth hon. Nid drwy aros yn ein hunfan y mae symud ymlaen fodd bynnag. Mae newid yn anorfod.

Yr egwyddor o helpu cymunedau Cymraeg eu hiaith i ddatblygu, arloesi, ffynnu a llwyddo sydd wedi bod yn ganolog bob amser i'n ffordd o ymwneud â'r cymunedau hynny. Cafodd yr egwyddor honno ei hategu ym maniffesto Llywodraeth newydd Cymru lle dywedwn ein bod yn 'cydnabod bod cyswllt anorfod rhwng bywyd yr iaith yn y dyfodol a dyfodol economaidd a chymdeithasol y cymunedau [Cymraeg eu hiaith] hynny.'

Drwy'r strategaeth hon rhoddir cyfrifoldeb clir ar holl adrannau Llywodraeth Cymru i arwain ar ddyfodol y Gymraeg. Mae hefyd yn datblygu syniadau sydd â goblygiadau i Lywodraeth Cymru gyfan. Mae Cabinet Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo'r strategaeth; gofynnwn yn awr am gefnogaeth y cyhoedd i fynd ati i'w gweithredu.




Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Cyd-destun

Yn ddiamau, y Gymraeg yw un o ieithoedd lleiafrifol mwyaf cadarn Ewrop. Mae ei dylanwad diwylliannol a'i thraddodiadau yr un mor berthnasol heddiw ac mae cenedlaethau newydd yn ei dysgu a'i defnyddio. Mae'r ffaith bod yr iaith wedi goroesi ochr yn ochr ag un o'r ieithoedd mwyaf dylanwadol yn y byd yn dyst i ymroddiad siaradwyr Cymraeg. Er hynny, mae sefyllfa'r Gymraeg yn parhau'n fregus.

Siaradwyr Cymraeg: niferoedd, rhuglder a defnydd

Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2001 fod 20.8 y cant o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg (582,400 o bobl). Roedd yn ganran uwch na'r un a nodwyd yng Nghyfrifiad 1991 (18.7 y cant a 508,100 o bobl). Dyma hefyd y cynnydd cyntaf o ran canran yn nifer y siaradwyr Cymraeg i'w gofnodi erioed gan Gyfrifiad, gyda'r cynnydd mwyaf ymysg pobl ifanc 5–16 oed.



Cyhoeddwyd yn wreiddiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Eto i gyd, dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus. Ymddengys fod dros hanner o'r bobl ifanc hyn yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. O'r herwydd, mae'n debygol bod eu hymwneud â'r iaith, ynghyd â lefel eu rhuglder, yn gyfyngedig o'u cymharu â phlant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Nid yn annisgwyl, mae rhuglder a defnydd yn mynd law yn llaw. Yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ychydig dros hanner (58 y cant) o'r rheini a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg sy'n eu cyfrif eu hunain yn siaradwyr rhugl. O blith y rheini sy'n dweud eu bod yn siaradwyr rhugl, mae'r rhan fwyaf (87 y cant) yn defnyddio'r iaith yn feunyddiol. Yr her a wynebwn yw creu cyfleoedd i bawb sy'n siarad Cymraeg, pa mor rhugl bynnag ydynt, ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywyd a'u hannog i wneud hynny.

Rydym wedi gwneud amcangyfrifon bras o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghymru, gan gasglu bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu colli bob blwyddyn ar hyn o bryd. Mae hynny yn bennaf yn sgil y gwahaniaeth rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n allfudo o Gymru a'r nifer sy'n dychwelyd.

Cymunedau Cymraeg eu hiaith

Mae cynaliadwyedd yr iaith yn ei broydd Cymraeg traddodiadol yn destun gofid. Mae mewnfudo ac allfudo wedi cael cryn effaith ar yr ardaloedd hyn. Mae llawer o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg wedi gadael eu cymunedau i geisio gwaith mewn ardaloedd trefol, ac mae pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg wedi mewnfudo i'r cymunedau hyn. Gwnaeth proffil daearyddol y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2001 gadarnhau'r patrwm hwn, gan fod canran y siaradwyr Cymraeg wedi lleihau mewn broydd Cymraeg traddodiadol fel Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Bu gostyngiad yn nifer y cymunedau lle'r oedd dros 70 y cant o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg i 54 yng Nghyfrifiad 2001 o'i gymharu â 92 ym 1991. Dadleuwyd ers tro bod angen dwysedd o siaradwyr ar y lefel honno er mwyn i'r Gymraeg fod yn iaith feunyddiol o fewn y cymunedau hynny.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau sylweddol hyn y mae'r Gymraeg yn eu hwynebu.


Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg fesul Cymuned 2001

Nifer y siaradwyr Cymraeg

- 3,000
- 1,500
- 300

— Ffin Awdurdod Lleol

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl CAS146.
Hawlfraint y Goron 2009
Trwydded rhif C02W0002635.



Cyhoeddwyd yn wreiddiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Statws y Gymraeg

Cadarnhaodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg. Dilynodd hyn dros hanner can mlynedd o gynllunio ieithyddol sydd wedi codi statws yr iaith. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'i bartneriaid, twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a sefydlu S4C, BBC Radio Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae consensws gwleidyddol cadarn wedi datblygu ynghylch yr angen i ddiogelu a hybu'r Gymraeg i'r dyfodol. Mae'r angen hwn wedi dwysáu ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i fframwaith strategol cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hybu'r Gymraeg sef *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* a gyhoeddwyd yn 2003.

Yn ogystal, mae arolygon barn yn awgrymu bod trwch poblogaeth Cymru yn gefnogol i'r Gymraeg, boed yn siaradwyr Cymraeg, yn ddysgwyr neu yn ddi-Gymraeg. Er enghraifft, mewn arolwg a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2008, dywedodd dros 80 y cant o'r rheini a ymatebodd eu bod yn ystyried yr iaith yn 'rhywbeth i fod yn falch ohono' a dywedodd bron i 75 y cant eu bod yn ystyried yr iaith yn 'rhywbeth sy'n perthyn i bawb yng Nghymru'. Mae'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg dros yr ugain mlynedd diwethaf yn tystio i'r gefnogaeth sy'n bodoli tuag at yr iaith. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth hon hefyd yn dangos bod cefnogaeth eang i'r angen i weithredu mewn modd bwriadus er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Dangosodd hefyd fod sefydliadau ac unigolion amrywiol yn ymrwymedig iawn o hyd i barhau â'r gwaith hwnnw.

Ein nod fel Llywodraeth Cymru yw manteisio ar y consensws sy'n bodoli a'i ddatblygu, gan dderbyn mwy o gyfrifoldeb am hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Edrych yn ôl: effaith gweithgareddau'r gorffennol

Ers ei sefydlu fel corff statudol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, bu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddwy rôl. Mae'r Bwrdd wedi gweithio fel corff rheoleiddio, gan gymeradwyo a monitro cynlluniau iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus, ac fel hyrwyddwr iaith, gan hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang. Datblygodd y Bwrdd enw da yng Nghymru a thu hwnt o safbwynt ei waith arloesol yn y maes cynllunio ieithyddol, ac mae wedi rhoi arweiniad ar lefel ryngwladol mewn perthynas â datblygu ieithoedd lleiafrifol.

Pan gyhoeddwyd *Iaith Pawb* yn 2003 derbyniodd y Bwrdd fuddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gallu gweithredu rhagor o brosiectau ar lawr gwlad. Datblygodd y Bwrdd bartneriaethau gyda nifer o gyrff ar draws Cymru fel y mentrau iaith, Urdd Gobaith Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, y Mudiad Meithrin a chyrrff eraill sy'n gweithredu er lles y Gymraeg. Yn ogystal, datblygodd y Bwrdd brosiect arloesol Twf er mwyn annog rhieni/gofalwyr i siarad Cymraeg â'u plant.

Yn ddi-os mae'r buddsoddiad a'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd a'i bartneriaid wedi arwain at ddarparu llawer iawn mwy o weithgareddau Cymraeg amrywiol ar lefel gymunedol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo, o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, dros 550 o gynlluniau iaith Gymraeg gyda chyrrff o wahanol sectorau, ac wedi gweithio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn oll wedi llwyddo i sicrhau y gall pobl Cymru fanteisio ar ragor o wasanaethau Cymraeg.

Wrth baratoi'r strategaeth hon, rydym wedi ystyried pa dystiolaeth sy'n bodoli i fesur effeithiolrwydd gweithgareddau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd a'i bartneriaid dros y blynyddoedd o safbwynt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi edrych ar weithgareddau y tu hwnt i Gymru yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol eraill.

Yn gyffredinol, awgrymodd y gwaith a gyflawnwyd ar gyfer ein hadolygiad o'r dystiolaeth, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r strategaeth hon, fod diffyg arwyddocaol yn y dystiolaeth empirig ynglŷn ag effaith rhaglenni unigol ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i asesu'n wrthrychol pa mor effeithiol y mae'r rhaglenni hyn wedi gweithio, naill ai ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, ac i werthuso'n briodol lwyddiant tebygol rhaglenni o'r fath yn y dyfodol. Mae angen i ni felly ddatblygu fframwaith gwerthuso cadarn a fydd yn ategu'r strategaeth hon. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran nesaf (gweler tudalennau 14–24).

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd yn bodoli yn awgrymu'r canlynol.

- Mae'n bosib bod angen cael cyswllt parhaus, gydol bywyd, ag unrhyw iaith fel y gall unigolyn gynnal yr iaith honno.
- Y boblogaeth sydd fwyaf tebygol o gefnu ar y Gymraeg yw teuluoedd lle nad yw ond un rhiant/gofalwr yn siarad Cymraeg. Credir hefyd fod amgyffrediad y gymuned o statws yr iaith yn effeithio ar agweddau rhieni/gofalwyr tuag at ddefnyddio'r iaith.
- Mae iaith 'cymuned' siaradwyr plentyn, sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, athrawon a'r ysgol, yn dylanwadu ar yr iaith a siaredir gan y plentyn. Mae iaith rhyngweithio â ffrindiau yn cydberthyn yn glos â'r iaith y mae'r plentyn yn ei siarad, ac mae'n dylanwadu ar agweddau plant tuag at y naill iaith neu'r llall neu at y ddwy.
- Mae cynlluniau megis Twf wedi llwyddo i ddod â dwyieithrwydd i waith prif ffrwd bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Mae hefyd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â manteision dwyieithrwydd.
- Awgryma'r llenyddiaeth y gallai darparwyr y Blynyddoedd Cynnar chwarae rôl fwy drwy gynnig rhagor o gymorth ymarferol a chymorth dwys i rieni/gofalwyr, gan greu amgylchedd dysgu ysgogol yn y cartref sy'n hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
- Ystyrir bod y blynyddoedd cynnar a blynyddoedd yr ardegau yn gyfnod hollbwysig o ran datblygu ymddygiad ffafriol tuag at iaith leiafrifol ac o ran pennu a yw'r iaith yn cael ei chynnal a'i throsglwyddo. Serch hynny, nid yw dysgu a siarad Cymraeg yn yr ysgol yn ddigon; mae angen i'r iaith gael ei defnyddio a'i chefnogi yn y cartref (os oes modd) a thrwy weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach.
- Canfuwyd bod diffyg hyder yn un o'r prif rwystrau a oedd yn atal staff rhag defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth eu gwaith. Ymddengys i hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth ieithyddol fod yn gyfrwng llwyddiannus i gynyddu agweddau positif tuag at y Gymraeg ymhlith staff.

- Ychydig o dystiolaeth benodol sydd yna fod darparu gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol yn cynyddu defnydd o iaith neu ei statws. Fodd bynnag, ceir corff o dystiolaeth sy'n dangos na fydd ieithoedd ond yn ffynnu os ceir cyfleoedd i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd.
- Ceir tystiolaeth helaeth fod pobl Cymru'n cefnogi gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg. Mae dros naw o bob deg siaradwr Cymraeg (gydag amrywiol lefelau o ruglder) o'r farn bod darparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fyw.
- Ers Deddf yr Iaith Gymraeg, dengys tystiolaeth fod rhwystrau i'w cael o hyd o ran manteisio ar wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r prif rwystrau'n cynnwys diffyg cyflenwad o wasanaethau yn y Gymraeg, diffyg galw am wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg a diffyg ymwybyddiaeth fod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y Gymraeg. Prin yw'r dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, ond ceir peth tystiolaeth sy'n awgrymu y gall marchnata'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio.
- Mae ymchwil yn awgrymu y dylai ymgyrchoedd sy'n marchnata ac yn hybu'r Gymraeg geisio targedu grwpiau iau; dylid ei gwneud hi'n haws i fanteisio ar y cyfryngau a'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael, a'u gwneud yn fwy perthnasol; a dylid manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg fel y we a'r cyfryngau cymdeithasol newydd.

Edrych tua'r dyfodol: strategaeth newydd

Ein gweledigaeth

Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru yw ein gweledigaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain wrth geisio gwireddu'r weledigaeth honno. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid amrywiol iawn a fydd yn cyfrannu'n helaeth at sicrhau y caiff ei gwireddu.

Rydym yn cydnabod bod cynllunio ieithyddol yn broses hirdymor. Bwriad y strategaeth hon yw camu tuag at ein nod hirdymor, gan wireddu'r amcan yn ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2011–2016, sef 'sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd'. I'r perwyl hwn, dros y pum mlynedd nesaf rydym am weld:

- cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac sy'n ei defnyddio
- rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgil defnyddiol mewn bywyd modern
- sefydlogi sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau
- lle amlwg i'r Gymraeg ar draws y cyfryngau digidol.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rydym am weld y cyfrifoldeb am hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei wreiddio a'i rannu ymysg nifer cynyddol o sefydliadau ar draws Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar weledigaeth *iaith Pawb* a gyhoeddwyd yn 2003.

Gwireddu'r weledigaeth

Mae dwy elfen graidd i bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu ein gweledigaeth. Yn gyntaf, drwy fesurau i alluogi ac annog plant a phobl eraill i **gaffael yr iaith**, fel annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref a sicrhau twf pellach mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ail, drwy fesurau i alluogi ac annog pobl i **ddefnyddio'r iaith** yn feunyddiol, fel creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wrth eu gwaith, wrth dderbyn gwasanaethau, ac wrth fwynhau adloniant a hamdden.

Addysg cyfrwng Cymraeg

Yn ddiamau, mae gan y system addysg rôl allweddol bwysig i'w chwarae yn nyfodol yr iaith. Darparu addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi ysgogi'r cynnydd mwyaf yn nifer y bobl ifanc sy'n rhugl ac yn hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Rydym bellach mewn sefyllfa lle gall mwy o bobl ifanc siarad yr iaith nag ers cyn yr Ail Ryfel Byd; sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

Mae dyfodol yr iaith yn nwylo ein plant a'n pobl ifanc. Cafodd pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg ei bwysleisio adeg cyhoeddi *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2010. Mae'r strategaeth honno yn amlinellu rôl allweddol y system addysg a sut rydym yn bwriadu atgyfnerthu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hynny'n cynnwys darpariaeth i blant a phobl ifanc ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith mewn ysgolion a cholegau – neu i oedolion ddysgu'r iaith drwy'r rhaglen Cymraeg i Oedolion.

Nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw:

- gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni
- gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau Ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygiad parhaus sgiliau
- sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf
- sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer digonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod o addysg a hyfforddiant, sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu
- gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
- cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau Cymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned.

Fel yr amlinellir yn y diagram ar dudalen 17, mae cyflawni rhaglen weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn agwedd allweddol ar y strategaeth hon. Yn y strategaeth honno ceir manylion ynghylch y mesurau y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd i wireddu'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl.

Heb system addysg cyfrwng Cymraeg gref, ni fyddai sail hirdymor ar gyfer y mesurau eraill sydd yn y strategaeth hon ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, yng ngweithgareddau cymdeithasol plant a phobl ifanc, yn y gymuned ac yn y gweithle.


Yn yr un modd, nid yw'r system addysg, ar ei phen ei hun, yn ddigonol ar gyfer cynhyrchu siaradwyr Cymraeg sydd yn gweld gwerth mewn defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd yn y cartref, yn gymdeithasol neu yn broffesiynol. Diben gweddill y strategaeth hon yw mynd i'r afael â'r heriau y mae'r Gymraeg yn eu hwynebu yn y cyd-destunau hynny.

Chwe maes strategol

Rydym wedi pennu chwe maes strategol a fydd yn sail i'r strategaeth hon. Dyma'r nodau ar gyfer y chwe maes.

- **Maes strategol 1: Y teulu**
Nod: annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.
- **Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc**
Nod: cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.
- **Maes strategol 3: Y gymuned**
Nod: cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned.
- **Maes strategol 4: Y gweithle**
Nod: cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- **Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg**
Nod: cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion.
- **Maes strategol 6: Y seilwaith**
Nod: cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith.

Dangosodd y broses ymgynghori ar y strategaeth ddrafft, a'r trafodaethau â Grŵp Cyngori Llywodraeth Cymru ar y strategaeth, fod yna gefnogaeth eang i'r bwriad i weithredu yn y meysydd hyn.



Sut byddwn yn gweithredu'r strategaeth

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae gofyn ein bod yn defnyddio gwahanol ddulliau gweithredu, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau dan sylw. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau â'r gwaith o annog pobl a sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg gan hefyd wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd a fydd yn deillio o Fesur y Gymraeg. Bydd y Mesur hwn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar wahanol gyrff drwy safonau.

Wrth weithredu'r strategaeth byddwn yn dilyn rhai egwyddorion craidd. Amlinellir yr egwyddorion hynny dros y tudalennau nesaf, ynghyd â'r gwahanol ddulliau gweithredu.

Egwyddorion

Dyma'r egwyddorion y byddwn yn eu dilyn wrth weithredu'r strategaeth hon.

Parhad a newid

Nid yw'r angen i weithredu yn y meysydd strategol uchod yn newydd. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'i bartneriaid wedi gweithredu o dan bob un o'r meysydd i wahanol raddau. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau â'r gwaith creadigol y mae'r Bwrdd wedi'i wneud dros y blynyddoedd. Bydd lleoli Tîm Datblygu Cymunedol y Bwrdd o fewn Is-adran y Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru o fis Ebrill 2012 ymlaen yn elfen greiddiol o'r parhad hwnnw, gan ddarparu dolen gyswllt rhwng Llywodraeth Cymru a nifer o'r partneriaid a fydd yn allweddol i lwyddiant y strategaeth hon.

Ar yr un pryd, roedd Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar y strategaeth yn gytûn fod y newid yn y strwythurau ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yn sgil Mesur y Gymraeg, a chyhoeddi'r strategaeth hon, yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru adolygu a gwerthuso'r sefydliadau a'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer yr iaith.

Cyhoeddwyd y strategaeth ddrafft wreiddiol gan Lywodraeth Cymru'n Un. Mae llawer o gynnwys y ddogfen honno i'w weld yn y strategaeth derfynol hon.

Gwneud y gorau o'r arian sydd ar gael

Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn wynebu gwahanol heriau amrywiol sy'n deillio o'r ffaith bod llai o arian cyhoeddus ar gael a byddwn yn craffu mewn modd trylwyr ar y cymorth ariannol yr ydym yn ei roi i'r iaith. Byddwn hefyd yn rhoi pwys mawr ar ddefnydd creadigol o gyllid ac ar arloesi, a byddwn yn parhau â dull Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ariannu sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Mwy o gydweithio

Bydd pwyslais hyd yn oed cryfach ar gydweithredu ac ar fathau newydd o waith partneriaeth a fydd yn cynnwys yr holl sefydliadau sydd â rhan i'w chwarae wrth gynllunio gwell dyfodol ar gyfer yr iaith. Byddwn yn parhau i gynnull y Fforwm Partneriaid a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddwn hefyd yn sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch gweithredu'r strategaeth hon ac a fydd yn cychwyn ar ei waith ym mis Ebrill 2012.

Bydd y strwythurau newydd, a fydd yn cynnwys Is-adran y Gymraeg gref o fewn Llywodraeth Cymru, yn creu cyfleoedd i gydweithio rhagor ag adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg, a nodau'r strategaeth hon, yn dod yn rhan o waith yr adrannau.

Rhannu a gwreiddio'r cyfrifoldeb am y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod y cyfrifoldeb am hybu'r Gymraeg yn cael ei rannu rhwng nifer cynyddol o sefydliadau. Bydd y system safonau o dan Fesur y Gymraeg (gweler tudalen 20) yn galluogi Llywodraeth Cymru i lunio safonau a fydd yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg osod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang.

Rydym hefyd yn sylweddoli bod llawer o'r llwyddiannau o safbwynt hyfywedd y Gymraeg yn ddibynnol ar weithgareddau unigolion a chymunedau, a bod angen meithrin gallu ar y lefel leol er mwyn sicrhau y gall y mathau hynny o weithgareddau barhau yn y dyfodol.

Cyfle cyfartal

Mae cyfle cyfartal yn thema drawsbynciol sy'n allweddol i'r ddogfen hon ac i holl bolisiau Llywodraeth Cymru. Ni ddylai unrhyw un, mewn unrhyw ran o Gymru, fethu â manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, nac ychwaith fethu â manteisio ar gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg oherwydd eu hil, ethnigrwydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd. Dylai gwasanaethau Cymraeg fod ar gael i bob cymuned, a dylai cymunedau allu manteisio arnynt, gan gynnwys cymunedau difreintiedig a'r rheini sy'n cynnwys cryn amrywiaeth ethnig. Byddwn yn disgwyl i'n partneriaid, ein darparwyr a'n rhanddeiliaid gydnabod hyn mewn egwyddor a chymryd camau i'w wireddu.

Cynaliadwyedd

Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ac yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol. Mae hefyd yn manteisio ar yr ymdrechion sydd eisoes wedi'u gwneud mewn cymunedau ar draws Cymru er mwyn cymryd cyfrifoldeb am yr iaith yn lleol, ac yn annog y cymunedau a'r sefydliadau sy'n eu gwasanaethu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Golyga hyn hybu cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith fyw o fewn y cymunedau hynny. Mae hefyd yn ategu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru wrth gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd,

drwy sicrhau rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi sefydlu mesurau er mwyn sicrhau bod gan weithlu'r dyfodol sgiliau yn y Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod sefydliadau amrywiol iawn yn ymateb drwy greu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gwaith.

Dulliau gweithredu

Dyma'r dulliau gweithredu y byddwn yn eu defnyddio wrth geisio gwireddu ein gweledigaeth.

Grantiau ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg

Bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu grantiau i gyrff at ddibenion hybu'r Gymraeg. Dros amser, byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r defnydd a wneir o'r grantiau hynny, gan sicrhau eu bod yn gydnaws â blaenoriaethau'r strategaeth hon.

Prosiectau penodol ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg

Byddwn hefyd yn parhau i weithredu a datblygu prosiectau penodol ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd nifer o'r prosiectau hyn yn barhad o brosiectau yr arferai Bwrdd yr Iaith Gymraeg eu gweithredu. Dros amser, byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r prosiectau hyn gan sicrhau eu bod yn gydnaws â blaenoriaethau'r strategaeth hon.

Y fframwaith cyfreithiol

Creodd Mesur y Gymraeg swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a fydd â'r pŵer cyffredinol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd gan y Comisiynydd rôl allweddol wrth warchod hawliau siaradwyr Cymraeg a chyfrannu at y drafodaeth gyhoeddus ynghylch dyfodol y Gymraeg.

Bydd y gwahanol wasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd yn gwella o ganlyniad i'r Mesur. Caiff hyn ei gyflawni drwy greu safonau a fydd yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau sy'n dod o dan gwmpas y Mesur o ran:

- darparu gwasanaethau yn y Gymraeg
- ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg
- hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

- hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang
- cadw cofnodion ynghylch cydymffurfiaeth â safonau ac ynghylch cwynion.

Bydd gan y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru ill dau rolau pwysig wrth greu safonau. Bydd gan y Comisiynydd hefyd bwerau sylweddol i orfodi cydymffurfiaeth â safonau ynghyd â phwerau i ymchwilio i honiadau o ymyrraeth yn rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Bydd gan y Comisiynydd hefyd y pŵer i gynghori ac i gyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch y Gymraeg. Bydd hefyd ddyletswydd ar y Comisiynydd i lunio adroddiad bob pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg.

Mae'n amlwg, felly, y bydd y Mesur a gwaith y Comisiynydd yn agweddau allweddol ar y gwaith y mae angen ei wneud er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu. Er y bydd y Comisiynydd yn gweithredu yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac yn pennu ei flaenoriaethau ei hun, bydd gwaith y Comisiynydd yn ategu'r gweithgareddau y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â nhw ar draws pob maes wrth weithredu'r strategaeth hon. Bydd hefyd yn sicrhau y gallwn rannu'r cyfrifoldeb am hybu'r defnydd o'r Gymraeg gydag eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol. Gofynna hyn am sefydlu perthynas weithio dda rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd a byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n effeithiol â'r Comisiynydd er lles y Gymraeg. Efallai y bydd gwaith ymchwil yn un enghraifft o faes lle y byddai'n bosib cydweithio.

Prif ffrydio ar draws Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn prif ffrydio'r iaith ymhellach i waith datblygu gwasanaethau a datblygu polisi, gan sicrhau ar yr un pryd fod Gweinidogion a swyddogion yn ystyried y cysylltiadau rhwng eu portffolios nhw a'r iaith. I'r perwyl hwn, o dan broses polisi Llywodraeth Cymru, mae gofyn asesu effaith polisiâu a gwasanaethau newydd ar y Gymraeg, gan gynnwys gweithgareddau polisi strategol.

Rydym hefyd yn disgwyl i'r polisiâu a lunnir, ac i'r gwasanaethau a ddarperir, gan gyrff cyhoeddus eraill gyd-fynd ag anghenion ieithyddol y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu. Bydd gan y Comisiynydd rôl allweddol wrth ddatblygu'r agenda prif ffrydio.

Caffael a chydymffurfio ag amodau grant

O bryd i'w gilydd y ffordd fwyaf effeithiol i Lywodraeth Cymru ymyrryd yw drwy gaffael neu gyflwyno amodau grant clir sy'n tynnu sylw sefydliadau a buddsoddwyr o'r tu allan at amodau cymdeithasol. Trwy ddefnyddio ein pwerau mewn perthynas â chaffael neu gyllid grant, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cyflwyno tendr ar gyfer contractau'r sector cyhoeddus neu sy'n cyflwyno cais am gymorth gan y sector cyhoeddus ddangos, lle y bo'n berthnasol, fod y Gymraeg ymysg y manteision a gyflawnir ar gyfer y gymuned leol. O safbwynt caffael mae hyn yn golygu defnyddio dulliau a chanllawiau sydd ar gael, gan gynnwys y templed asesu risg cynaliadwy, yr arweiniad i roi gwasanaethau cyhoeddus allan ar gontract a'r Gymraeg, a'r ddogfen *Budd i'r Gymuned: Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

Monitro

Caiff y gwaith o weithredu'r strategaeth hon a'i chynlluniau gweithredu blynyddol, a wneir yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ei fonitro gan Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru, a fydd yn adrodd i Weinidogion Cymru. Caiff adroddiad blynyddol ar y gwaith o weithredu'r strategaeth a'r cynlluniau gweithredu blynyddol ei gyhoeddi a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru.

Fframwaith gwerthuso

Mae'n hanfodol fod y strategaeth hon yn cael ei gwerthuso fel bod modd asesu ei heffeithiolrwydd yn unol â'i hamcanion strategol ac fel bod modd sicrhau bod gwelliannau dysgu yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn datblygu fframwaith gwerthuso i gyd-fynd â'r strategaeth. Bydd hwn yn dynodi sut bydd y strategaeth yn cael ei gwerthuso drwy wahanol ddulliau a ffynonellau data, a fydd yn cynnwys ymchwil a dadansoddiad pwrpasol.

Yn wyneb yr ymyriadau polisi amrywiol sydd dan sylw, bydd hi'n bwysig sicrhau dull gweithredu cyson a chymharol tuag at werthuso ar draws y strategaeth. Bydd y dull gweithredu ar y naill law yn ffurfiannol – er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu gydol y gweithredu – ac ar y llaw arall yn adolygol – er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cofnodi mewn dull cadarn ac amserol.

Bydd y fframwaith gwerthuso yn:

- dynodi sut bydd effeithiau'r strategaeth hon yn cael eu cofnodi ar wahanol lefelau (cyfranogwr unigol, prosiect/rhaglen ac yn lleol/genedlaethol)
- diffinio ymhellach y dangosyddion mesuradwy sydd yn y strategaeth hon ynghylch effeithiau disgwylidig ac effeithiau posib y strategaeth, gan ddefnyddio data a gasglwyd yn genedlaethol ac yn lleol pryd bynnag y bo hynny'n bosib (bydd hyn yn cydweddu cymaint â phosib â systemau monitro perfformiad y partneriaid eu hunain)
- dynodi bylchau yn yr wybodaeth/data sydd eisoes wedi'u casglu ac ystyried sut gellid canfod data priodol, gan ystyried ymarferoldeb a chost canfod gwybodaeth ychwanegol a'r budd y mae gwybodaeth o'r fath yn debygol o'i olygu
- clustnodi rhaglen ar gyfer casglu, ymchwilio a dadansoddi data a fydd yn cael ei chyhoeddi gydol oes y strategaeth fel sail i'w datblygiad a'i hadolygiad parhaus – gan gynnwys ar gyfer yr adroddiad blynyddol ar weithrediad y strategaeth hon sy'n ofynnol o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dangosyddion

Byddwn yn defnyddio'r ddau ddangosydd isod er mwyn mesur llwyddiant cyffredinol y strategaeth hon. Y rhain yw'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2011–2016.

- Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref.
- Canran y bobl sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

Hoffem hefyd fesur canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ond nid ei hysgrifennu, a hefyd fesur y llwyddiant o dan bob un o'r chwe maes strategol. Caiff y dangosyddion hyn eu nodi ar ddechrau'r chwe phennod nesaf. Rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn datblygu a diffinio'r dangosyddion hyn a byddwn yn gwneud hyn wrth ddatblygu ein fframwaith gwerthuso.

Pwyntiau gweithredu

Byddwn yn:

1. Parhau i weithredu ein Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010.
2. Dyrannu grantiau a chomisiynu prosiectau ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg, gan werthuso'r cynllun grantiau, y prosiectau, a gwaith derbynwyr y grantiau o dro i dro.
3. Cwblhau'r broses o sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol newydd o dan Fesur y Gymraeg.
4. Sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch gweithredu'r strategaeth hon.
5. Gwneud safonau drwy is-ddeddfwriaeth, ar ôl i argymhellion y Comisiynydd ddod i law, a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gyrrff ynghylch y Gymraeg.
6. Prif ffrydio'r Gymraeg ar draws holl weithgareddau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gwella ein perfformiad mewn perthynas â'r gwaith yr ydym yn ei wneud o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg.
7. Datblygu fframwaith o fewn amodau Llywodraeth Cymru ynghylch caffael a cydymffurfiaeth â grant er mwyn sefydlu manteision cymunedol mewn perthynas â'r Gymraeg i'w ddefnyddio lle y bo'n briodol.
8. Paratoi fframwaith gwerthuso er mwyn gwella ein gallu i fesur effaith ymyriadau o dan y strategaeth, a chomisiynu ymchwil i gynyddu'r dystiolaeth sydd ar gael.

Maes strategol 1: Y teulu

Nod

Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.

Y canlyniad a ddymunir

Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sydd mewn cyswllt agos â nhw.

Dangosydd

Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref.

Ynghyd ag addysg, mae trosglwyddo'r iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall yn un o'r ddau faes pwysicaf ym maes cynllunio ieithyddol. Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl, ac yn ddiamau, mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl.

Ceir corff o dystiolaeth sy'n awgrymu bod y Gymraeg yn llai tebygol o gael ei defnyddio o fewn teuluoedd lle nad yw ond un rhiant/gofalwr yn siarad Cymraeg. Yn ôl Cyfrifiad 2001, mewn teuluoedd lle'r oedd y ddau riant/gofalwr yn siarad Cymraeg, roedd 82 y cant o blant tair i bedair oed yn gallu siarad yr iaith, ond nid yw hyn ond yn cyfrif am 5 y cant o'r grŵp oedran hwn. Mewn teuluoedd lle'r oedd un rhiant/gofalwr yn siarad Cymraeg, 40 y cant o'r plant hyn oedd yn gallu siarad yr iaith. Mae hyn yn creu her enfawr, ac mae'n rhaid gwrth-droi'r dirywiad o ran y Gymraeg mewn teuluoedd er mwyn sicrhau bod yr iaith yn goroesi ac yn ffynnu. O'r herwydd, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd yw un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu dyfodol y Gymraeg.

Gall ffactorau amrywiol iawn ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni/gofalwyr ynghylch trosglwyddo iaith ac mae angen ystyried y rhain i gyd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dewis yn fater greddfol i raddau helaeth a bod rhieni/gofalwyr yn dueddol o ddefnyddio'r iaith y maent fwyaf cyfarwydd â hi, neu'r iaith y maent yn ei siarad â'u partner. O ran y ffactorau sy'n dylanwadu ar yr iaith a gaiff ei dewis gan y plentyn, maent yn cynnwys eu 'cymuned' o

siaradwyr – sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau, athrawon a ffrindiau – yn ogystal â dylanwadau cymdeithasol eraill fel y cyfryngau a gweithgareddau cymunedol.

Dros y degawd diwethaf, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi buddsoddi cryn egni ac arbenigedd ym maes trosglwyddo iaith. Ei brif fenter oedd Twf, sef prosiect arloesol ac eang ei gwmpas sy'n ceisio annog rhieni/gofalwyr Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant. Mae ganddi rwydwaith o swyddogion maes ledled Cymru, sy'n cyfleu i rieni/gofalwyr, darpar rieni/gofalwyr a'r cyhoedd fanteision siarad Cymraeg gartref, ynghyd â manteision diwylliannol ac economaidd magu plant yn ddwyieithog.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd wedi datblygu mentrau eraill wedi'u hanelu at rieni/gofalwyr, yn ogystal â Twf, mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill. Amrywia'r prosiectau hyn o sesiynau ymwybyddiaeth iaith i gynlluniau sy'n ceisio cynyddu hyder rhieni/gofalwyr a'r teulu estynedig i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant ac o fewn y gymuned.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynlluniau fel Twf wedi llwyddo i gynnwys pwysigrwydd trosglwyddo iaith o fewn agendâu gwaith bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Mae hefyd wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth ynglŷn â manteision dwyieithrwydd.

Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, ei bod yn anodd, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, i asesu effaith cynlluniau fel hyn ar batrymau iaith mewn teuluoedd a bod rhagor o waith i'w wneud i ddeall yn well effaith yr ymyriadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i ddeall yn well y penderfyniadau a wneir gan rieni/gofalwyr sy'n siarad Cymraeg a byddwn, i'r perwyl hwn, yn chwilio am ffyrdd i wella a datblygu gweithgareddau sy'n darbwylo rhieni/gofalwyr a'r teulu estynedig i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen cynorthwyo rhieni/gofalwyr di-Gymraeg, gan greu cyfleoedd i'w plant glywed yr iaith, drwy weithgareddau o fewn y gymuned a thrwy weithgareddau amlgyfrwng yn y cartref fel gwasanaeth Cyw ar S4C sy'n cynnwys rhaglenni teledu a gwasanaeth ar-lein.

Mae technolegau newydd yn ei gwneud yn bosibl i deuluoedd gadw mewn cysylltiad wyneb yn wyneb ble bynnag y maent, er enghraifft gall neiniau a theidiau gadw mewn cysylltiad â'u hwyrion. Gallai hyn olygu ei bod hi'n bosibl sicrhau bod rhagor o Gymraeg yn cael ei chlywed y tu allan i'r teulu agos os yw aelodau o deuluoedd yn byw yn bell i ffwrdd oddi wrth ei gilydd.

Mae hwn yn faes lle mae angen mwy o dystiolaeth a byddwn am sicrhau, felly, bod rhagor o waith ymchwil yn cael ei wneud ym maes trosglwyddo iaith ar ôl i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 gael eu cyhoeddi. Y nod yw ceisio deall yn well y berthynas rhwng yr ymyriadau polisi a dewisiadau rhieni/gofalwyr.

Yn olaf, roedd ymrwymiad ym maniffesto Llywodraeth newydd Cymru ym mis Mai 2011 i sicrhau sail statudol i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar sail y galw gan rieni. Caiff yr ymrwymiad hwn, sy'n mynd â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gam ymhellach, ei weithredu fel rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Pwyntiau gweithredu

Byddwn yn:

9. Datblygu ymhellach ffordd effeithiol a chydgyssylltiedig, wedi'i seilio ar dystiolaeth, o annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd gyda babanod a phlant ifanc. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu ar waith Twf a phrosiectau cysylltiedig, a hybu cyrsiau a digwyddiadau Cymraeg i'r Teulu.
10. Hybu manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu a manteision addysg cyfrwng Cymraeg.
11. Chwilio am ffyrdd o wella gwasanaethau allweddol fel gofal plant cyfrwng Cymraeg.
12. Rhoi sail statudol i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar sail y galw gan rieni.

Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc

Nod

Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Y canlyniad a ddymunir

Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg.

Dangosydd

Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Mae pob cenhedlaeth o bobl ifanc yn llawn brwdfrydedd a chreadigrwydd newydd ynghylch y defnydd o iaith leiafrifol. Gallwn ymfalchïo yn y ffaith bod pobl ifanc yng Nghymru yn hapus i ddathlu'r Gymraeg a'i thraddodiadau, gan hefyd ei defnyddio mewn cyd-destunau cyfoes gan gynnwys y rhai sydd ynghlwm wrth dechnolegau newydd.

Yn ystod y deng mlynedd ar hugain ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg (o 14.9 y cant o blant rhwng 3 a 14 oed yn 1971 i 37.2 y cant yn 2001). Eto i gyd, mae angen bod yn ofalus wrth ystyried y ffigurau hyn, a hynny oherwydd ei bod yn debygol bod dros hanner y rhain yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn achos nifer o blant sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dod o gartrefi heb rieni/gofalwyr sy'n medru'r Gymraeg, yr ysgol yw un o'r ychydig leoedd lle maent yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod cyfnod yr ardegau yn hollbwysig o ran datblygu agwedd ffafriol tuag at iaith leiafrifol ac o ran pennu i ba raddau y bydd unigolyn yn defnyddio'r iaith. Yn hyn o beth, ymddengys nad yw ysgol, ar ei phen ei hun, yn ddigon; mae'n rhaid i blentyn neu berson ifanc dderbyn cefnogaeth yn y cartref (os oes modd) ac anogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae yna hefyd dystiolaeth sy'n awgrymu bod iaith rhyngweithio â ffrindiau yn cydberthyn yn glos â'r iaith y mae'r plentyn yn ei siarad, ac mae'n dylanwadu ar agweddau plant tuag at y naill iaith neu'r llall neu at y ddwy.

Mae angen i ni felly ddarparu cyfleoedd cymdeithasol amrywiol iawn i'r grŵp hwn ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, er mwyn datblygu cyswllt rhwng nid yn unig yr iaith ac addysg, ond hefyd rhwng yr iaith a gweithgarwch hamdden a diwylliannol ac, yn anad dim, â phleser a difyrrwch.

Dylai creu rhagor o gyfleoedd o'r fath olygu bod yr unigolyn yn gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith, a dylai ennyn brwdfrydedd ac agwedd bositif tuag at yr iaith.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth hon, nododd nifer o'r ymatebwyr mai creu cyfleoedd ymarferol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg oedd y ffordd orau o feithrin teimlad o werth tuag at y defnydd o'r iaith. Cytunwn â'r farn honno.

Mae dylanwadu ar ddefnydd person ifanc o iaith leiafrifol yn fater cymhleth, ac mae angen mynd ati mewn amryfal ffyrdd, ar sail tystiolaeth, i'w gynorthwyo i wneud dewisiadau cadarnhaol. Credwn fod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ddefnydd person ifanc o'r Gymraeg, gan gynnwys pa mor rhugl a hyderus ydyw yn yr iaith. Ymhlith y ffactorau eraill, tybiwn fod diwylliant pobl ifanc, pwysau gan gyfoedion, agweddau yn y gymuned at yr iaith, y cyfryngau byd-eang gan gynnwys rhwydweithio cymdeithasol electronig, a'r gwerth a roddir ar yr iaith fel sgil ar gyfer byd gwaith oll yn elfennau pwysig. Credwn hefyd fod arwyddocâd y ffactorau hyn yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu a yw'r person ifanc wedi caffael yr iaith gartref neu drwy'r system addysg. Mae angen i ni wneud mwy o waith ymchwil, fodd bynnag, i ddeall y ffactorau hyn yn well.

Rydym hefyd yn wynebu heriau o fewn y system addysg i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg wrth wneud dewisiadau ar gyfnodau allweddol o'u haddysg – rhwng y cynradd a'r uwchradd, a rhwng yr uwchradd ac addysg bellach neu addysg uwch. Tra bo'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn mynd i'r afael â'r heriau hyn, credwn fod llwyddiant y mesurau hynny'n rhannol ddibynnol ar y gallu i ddarbwylllo plant a phobl ifanc ynghylch gwerth y Gymraeg yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Mae gan y strategaeth hon rôl bwysig i wireddu hynny drwy gefnogi gweithgareddau sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc – ynghyd â'r rheini y dânt i gyswllt rheolaidd â nhw fel eu rhieni/gofalwyr, athrawon a gweithwyr ieuenctid – o werth defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn ceisio dilyn hynt sgiliau Cymraeg dysgwyr sy'n gadael yr ysgol drwy gasglu data o fewn y system addysg.

Mae llawer o waith wedi'i wneud i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer o sefydliadau wedi bod ynghlwm wrth y gwaith hwn – mae rhai ohonynt, fel yr Urdd a'r mentrau iaith, yn canolbwyntio'n llwyr ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; ac mae gan eraill, megis Clybiau Ffermwyr Ifanc, clybiau chwaraeon, grwpiau drama, ac yn y blaen, gylch gwaith ehangach. Mae angen i'r sefydliadau hyn barhau i fod yn arloesol ac yn greadigol, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu dulliau o gasglu tystiolaeth ynghylch yr effaith y mae eu gweithgareddau'n ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Bydd ein dulliau gweithredu yn y maes yma yn cynnwys rhoi grantiau i gyrff sy'n darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg, a phrif ffrydio'r Gymraeg yn well mewn gweithgareddau sy'n cael eu hybu gan y sector cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael o wledydd eraill yn awgrymu bod angen i weithgareddau yn yr iaith leiafrifol gynnig profiad cystal, os nad gwell, na'r hyn sydd ar gael yn yr iaith fwyafrifol.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr holl weithgarwch hwn, mae'n bwysig sicrhau ein bod yn trafod â'r bobl ifanc eu hunain beth yn union sy'n apelio atynt, a pha fathau o weithgareddau yr hoffent eu mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i ni gynnal y drafodaeth hon yn barhaus. Rydym eisoes wedi cychwyn ar y gwaith hwn drwy gomisiynu gwaith gan yr Urdd yn ystod haf 2011 ynghylch anghenion a dyheadau pobl ifanc. Casgliad yr ymgynghoriad hwnnw oedd fod plant a phobl ifanc yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, a taw gweithgareddau chwaraeon oedd yn fwyaf poblogaidd. Roedd dawn, drama, celf a gweithgareddau awyr agored hefyd ymysg y gweithgareddau eraill a nodwyd.

Mae profiad o wledydd eraill hefyd yn awgrymu bod plant a phobl ifanc yn mwynhau gweithgareddau creadigol, ac yn cael gwefr o weld cynnyrch eu gwaith wedi ei gyhoeddi – yn enwedig ar y we. Yng Nghymru, mae'r prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc, a ddatblygwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn ceisio ymbweru siaradwyr Cymraeg ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd newydd, ond anffurfiol, o fewn amgylchedd yr ysgol. Un o'r elfennau hanfodol yw bod dysgwyr hŷn yn annog rhai iau i feddwl am yr iaith ac i fod yn rhan o brosiectau arloesol fel rhedeg gorsaf radio yn yr ysgol neu ysgol roc drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn awyddus i ehangu'r dull hwn o weithio gyda phlant a phobl ifanc, a gwerthuso'r gwaith o safbwynt ei effaith ar y defnydd o'r

Gymraeg. Hoffem hefyd weld rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg ar-lein, a'u hannog i ddewis y Gymraeg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, cynnyrch meddalwedd a dyfeisiau electronig fel ffonau deallus. Caiff y defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), sy'n cynnwys llunio safonau mewn perthynas â TGCh, ei drafod ymhellach o dan faes strategol 6.

Mae hefyd yn galonogol gweld dull tair haen o weithredu yn dod i'r amlwg yn y gwasanaeth ieuenctid mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pobl ifanc. Golyga hyn fod sefydliadau'n ceisio cynllunio'r ddarpariaeth mewn modd mwy cydgysylltiedig, ar sail yr egwyddor bod gan holl bobl ifanc Cymru ryw fath o afael ar y Gymraeg. Dyma'r dull a awgrymir yn Safonau Cenedlaethol Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer Cymru Llywodraeth Cymru, ac mae'n annog darparwyr i gynnig gwasanaethau mwy priodol, sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion ieithyddol nifer cynyddol y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer pobl ifanc sydd â sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg, ar gyfer y rheini sy'n dysgu'r iaith a'r rheini sy'n rhugl yn y Gymraeg. Byddwn yn ystyried mabwysiadu'r ffordd hon o weithio mewn meysydd eraill.

Pwyntiau gweithredu

Byddwn yn:

13. Ymgynghori o bryd i'w gilydd â phlant a phobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth a datblygu gwell dealltwriaeth o'r gweithgareddau y byddent yn dymuno ymgymryd â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg a'r gwasanaethau yr hoffent eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
14. Parhau i gefnogi gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gymuned ac adolygu'r gweithgareddau hynny, o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol a'u bod yn cyd-fynd â'r strategaeth hon.
15. Gwella ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc, a'u rhieni/gofalwyr, ynghylch y cyfleoedd a'r gweithgareddau sy'n bodoli ar gyfer defnyddio'r iaith yn gymdeithasol ac yn y gweithle.
16. Gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o fewn sefydliadau addysgol.

17. Gwella ymwybyddiaeth iaith gweithwyr ieuenctid i'w galluogi i feithrin agweddau positif ymysg pobl ifanc tuag at yr iaith.

18. Sicrhau, gan gynnwys drwy wneud safonau priodol ynghylch y Gymraeg, bod y cyrff cyhoeddus sy'n darparu neu'n ariannu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc – boed yn uniongyrchol neu drwy waith Partneriaethau Pobl Ifanc – yn darparu rhagor o'r gwasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau chwaraeon a hamdden.

Maes strategol 3: Y gymuned

Nod

Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned.

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru.

Dangosydd

Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Mae tystiolaeth o wledydd ar draws y byd, dros nifer o ddegawdau, yn dangos bod cyswllt cryf rhwng hyfywedd a goroesiad iaith a bodolaeth ardaloedd daearyddol lle ystyrir yr iaith honno fel y brif iaith. Awgryma'r dystiolaeth hefyd fod angen dwysedd uchel o siaradwyr i'r Gymraeg gael ei defnyddio fel iaith arferol cymuned.

Mae'r cymunedau yng Nghymru lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn newid. Mae'r strategaeth hon eisoes wedi cyfeirio at y ffaith bod nifer y cymunedau yng Nghymru lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi lleihau yn sylweddol dros y degawdau diwethaf. Mae prosesau mewnfudo ac allfudo, cyfleoedd gwaith cyfyngedig a chyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy wedi cael effaith sylweddol ar broffil demograffig a phroffil ieithyddol sawl cymuned.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu'r gwaith a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, y mentrau iaith a nifer o gyrff eraill ar lawr gwlad gan weithredu mewn modd bwriadus mewn ardaloedd lle y caiff y Gymraeg ei siarad fel prif iaith bywyd beunyddiol, neu lle'r oedd yn brif iaith tan yn gymharol ddiweddar, a lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn lleihau'n gyflym.

Ein bwriad yw datblygu mentrau arbennig yn yr ardaloedd hyn a fydd yn ysgogi camau gweithredu strategol, gan wrth-droi'r newid ieithyddol. Mae angen gwneud hyn mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac asiantaethau lleol sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol ac adfywio economaidd – yn ogystal â'r gyrff sydd eisoes yn gweithredu er lles y Gymraeg. Byddwn yn ystyried y dystiolaeth a ddaw yn sgil sefydlu Cynllun Hybu'r Gymraeg fel cynllun peilot yn ardal Aman Tawe – cynllun sy'n ceisio mynd i'r afael â'r dirywiad sydd wedi bod yn nefnydd yr

iaith yn yr ardal honno mewn dull holistaidd – er mwyn asesu a yw'r model hwn o weithredu yn un y dylid ei ymestyn i ardaloedd eraill. Byddwn hefyd yn ystyried a oes modd efelychu'r gwaith sydd wedi'i wneud o fewn Ardal Adfywio Strategol Môn a Menai, sy'n cynnwys y fenter Brocer iaith ym Mheblig, mewn ardaloedd eraill.

Bydd yr heriau penodol yn amrywio o ardal i ardal ond maent yn debygol o gynnwys materion fel y tai fforddiadwy sydd ar gael, diffyg cyfleoedd gwaith, nifer isel o rieni/gofalwyr yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, statws isel yr iaith o fewn y gymuned, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, a mewnfudo ac allfudo. Mae'n rhaid i'r gwaith adnewyddu ieithyddol fynd law yn llaw â'r gwaith o wella seilwaith cymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd hyn er mwyn helpu i sicrhau bod gwell cyfleoedd gwaith a rhagor o dai fforddiadwy ar gael fel y gall pobl aros yn eu cymunedau. Bydd gwella gallu'r cymunedau eu hunain i gynnig rhagor o wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg yn agwedd bwysig ar y gwaith hwn. Rydym yn awyddus, hefyd, i ddatblygu'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Iaith-Economi Cymru, gan ddatblygu strategaeth glir ynghylch sut gellid manteisio ar y Gymraeg fel ased economaidd. Rhennir yr heriau hyn, felly, ar draws holl bortffolios y Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth Cymru, a byddwn yn prif ffyrddio'r Gymraeg yn ein polisiau datblygu economaidd a'n polisiau datblygu cymunedol fel y bo'n briodol.

Mae pob cymuned yn esblygu ac yn datblygu dros amser. Lle cynigir datblygiadau mae'r system gynllunio yn ddull pwysig ar gyfer rheoli newid mewn modd positif. Mae awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol un ai wrthi'n paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol neu wedi'u mabwysiadu'n ddiweddar. Mae tystiolaeth a chynnwys y gymuned yn agweddau pwysig ar y broses hon. Maent yn pennu gweledigaeth a pholisiau'r awdurdod ynghylch datblygu cynaliadwy a'r defnydd o dir. Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch newidiadau i *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (TAN 20)*, er mwyn llunio canllawiau mwy pendant ynghylch sut dylid ystyried y Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Nod cyffredinol Cynlluniau Datblygu Lleol yw hybu datblygiad cynaliadwy cymunedau a lleoedd ar draws Cymru, sy'n cynnwys hybu ffyniant ieithyddol ac economaidd cymunedau Cymraeg drwy gynnig cymysgedd priodol o gyfleoedd tai a chyflogaeth. Caiff ein polisiau cynllunio yn y meysydd hyn eu hamlinellu yn *Polisi Cynllunio Cymru, TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy a TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy*. Rydym yn cynnig adolygu â rhanddeiliaid sut mae cymunedau Cymraeg eu hiaith wedi cyfrannu at y broses sydd ynghlwm wrth Gynlluniau Datblygu Lleol ac a fyddai modd gwella'r

broes honno yn y dyfodol, pennu pa ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg y tynnwyd sylw atynt, ac ystyried yr angen i ddarparu canllawiau ychwanegol ynghylch ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu paratoi.

Wrth i gymunedau gwledig ac ôl-ddiwydiannol Cymraeg eu hiaith newid, mae newid demograffig hefyd yn mynd rhagddo o fewn dinasoedd a threfi Cymru. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg mewn dinasoedd, yn enwedig Caerdydd, wedi cynyddu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf. Deillia hyn yn bennaf o'r ffaith bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn mynychu sefydliadau addysg uwch ac yn chwilio am waith. Mae angen i ni ymateb i'r newid hwn – ac mae angen model datblygu cymunedol o fath gwahanol mewn dinasoedd a threfi mawr fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam, lle gallai canran y siaradwyr Cymraeg fod yn gymharol isel, ond lle mae nifer y siaradwyr yn sylweddol. Mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy amrywiol a niferus yn y dinasoedd a'r trefi hyn nag ydynt mewn llawer o gymunedau gwledig. Yr her, felly, yw cefnogi a gwella'r rhwydweithiau presennol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, a chreu rhwydweithiau newydd, gan godi proffil y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y dinasoedd a'r trefi hyn.

Un elfen bwysig o'r gwaith hwn fydd manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n deillio o gyfryngau newydd a rhwydweithio cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn wir o fewn trefi a dinasoedd a hefyd ar draws gweddill Cymru a thu hwnt. Tra bo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymuned ddaeryddol yn parhau i fod yn hynod o bwysig, yn enwedig ymhlith y boblogaeth sefydlog, mae natur rhyngweithio cymdeithasol yn newid i nifer fawr o bobl, yn enwedig pobl ifanc. Mae mwy a mwy o gyfathrebu yn digwydd yn electronig a thros bellter, gan leihau'r graddau y mae'r cysyniad o 'le' yn allweddol, a chynyddu rôl cymunedau o ddiddordeb. Golyga hyn oll y bydd hi'n bwysig manteisio ar y cyfleoedd sydd ynghlwm wrth y technolegau newydd er lles cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru ac ar draws y byd. Caiff hyn ei drafod ymhellach o dan faes strategol 6.

Un amcan allweddol fydd cynyddu gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol cyfrwng Cymraeg ar draws y cymunedau hyn (boed yn gymunedau daeryddol go iawn neu'n rhith-gymunedau). Mae hyn wedi bod yn agwedd allweddol ar y gwaith sydd wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf yn y maes cynllunio ieithyddol. Eto i gyd, prin yw'r dystiolaeth sy'n priodoli effaith y gweithgareddau hyn ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr hirdymor.

Bydd Mesur y Gymraeg yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang. Gallai'r rhain ategu ein gwaith yn y maes hwn.

Pwyntiau gweithredu

Byddwn yn:

19. Gwneud safonau hybu o dan Fesur y Gymraeg, a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu – a gosod dyletswyddau tebyg ar Lywodraeth Cymru.
20. Adnabod ardaloedd yng Nghymru lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ond lle mae'r iaith bellach o dan fygythiad – a threfi a dinasoedd lle ceir nifer da o siaradwyr Cymraeg – ac annog datblygiad rhaglenni o weithgareddau penodol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny.
21. Adolygu'r trefniadau cyllido cyfredol ar gyfer y cyrff a'r mentrau sy'n hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yn effeithiol, eu bod yn ategu'r strategaeth hon a'u bod yn dilyn arferion da o ran cynllunio ieithyddol.
22. Parhau i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r iaith ac ymateb i'r cysylltiadau hynny.
23. Ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau ei bod hi'n haws i grwpiau cymunedol a chyrff y trydydd sector fanteisio ar wasanaethau cyfieithu.
24. Prif ffrydio'r iaith o fewn ein holl waith sy'n ymwneud â chefnogi a datblygu cymunedau ledled Cymru.
25. Cwblhau'r adolygiad o bolisi cynllunio a'r cyngor technegol cysylltiedig ar y Gymraeg.

Maes strategol 4: Y gweithle

Nod

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Dangosyddion

- Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Canran staff Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Y gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Fel unigolion, rydym yn treulio cyfran sylweddol o'n hamser yn y gwaith. Roedd nifer sylweddol o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y strategaeth hon yn cytuno bod gan y gweithle rôl allweddol o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill ar eu bywydau. Nodwyd hefyd fod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg.

Er gwaetha'r cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r cyfleoedd i bobl weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n gymharol gyfyngedig. Mae hyn, felly, yn eithrio'r Gymraeg o un o'r meysydd allweddol i nifer o siaradwyr Cymraeg, ac yn golygu na all siaradwyr Cymraeg fanteisio ar y cyfle i normaleiddio eu defnydd o'r iaith.

Ein nod yw cynnig rhagor o gyfleoedd i'r rheini sy'n medru'r Gymraeg ei defnyddio yn y gwaith – yn eu hymwneud â'i gilydd, gyda'u cwsmeriaid a chyda'u cyflogwyr. Wrth wneud hyn, byddwn yn datblygu'r arferion da sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, mae yna ychydig o dystiolaeth sy'n dangos bod hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth ieithyddol yn ffordd lwyddiannus o gynyddu agweddau positif ymhlith gweithwyr a chyflogwyr tuag at y Gymraeg.

Mae'r maes gwaith hwn yn un eithaf newydd ac yn gryn her. O'r herwydd, does dim llawer o dystiolaeth feintiol ynghylch y maes hwn ar gael ar gyfer asesu effaith gweithgareddau sydd wedi'u cynnal hyd yma. Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth ansoddol yn fwy datblygedig, a dangosodd gwaith ymchwil diweddar fod nifer o wahanol ffactorau yn dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gan gynnwys arferion sydd wedi hen ennill eu plwyf lle ffeirir defnydd o'r Saesneg; materion yn gysylltiedig â gallu yn y Gymraeg, a rhesymau sefydliadol megis y ffaith nad oes digon o gymorth gan sefydliadau i gefnogi defnydd o'r iaith; a'r graddau y mae diwylliant y sefydliad yn hwyluso neu'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Gwyddom hefyd fod gweithleoedd yn amrywio, ac felly hefyd gefndir ieithyddol y staff sy'n gweithio mewn lleoliadau ledled Cymru.

Bydd prif ffrydio'r Gymraeg i'n gwaith mewn perthynas â gwybodaeth am y farchnad lafur yn agwedd bwysig ar y gwaith hwn. Rydym hefyd yn gweld rôl bwysig i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion o ran helpu gweithwyr i ddatblygu a mireinio eu sgiliau iaith ar gyfer y gweithle – ac ar draws pob sector.

Bydd modd i Gomisiynydd y Gymraeg hefyd wneud cyfraniad pwysig i'r maes hwn drwy ddatblygu a gosod safonau gweithredu o dan Fesur y Gymraeg. Bydd safonau gweithredu yn fodd o sicrhau rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Bydd y Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am gynnig cyngor i sefydliadau ymhob sector ynghylch arferion da – yn ogystal â pharatoi codau ymarfer perthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb arbennig i ddangos arweiniad yn y maes hwn fel un o brif gyflogwyr Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ymhob un o'n swyddfeydd ac i dynnu sylw at gyfleoedd priodol i estyn neu efelychu enghreifftiau o arferion da a ddatblygwyd yn ddiweddar yn ein swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno ac Aberystwyth.

Pwyntiau gweithredu

Byddwn yn:

26. Gwahodd y Comisiynydd i ddatblygu canllawiau ynghylch arferion da mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.
27. Llunio safonau gweithredu, a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar sefydliadau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
28. Sicrhau rhagor o gydnabyddiaeth i'r Gymraeg fel sgîl yn y gweithle a chreu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg yn y gweithle drwy'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion.
29. Gwella'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad lafur o ran y galw am staff sydd â sgiliau Cymraeg, ar lefel ranbarthol ac fesul sector, a chyhoeddi'r wybodaeth drwy'r sianeli priodol.
30. Dangos arferion da o ran y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

Nod

Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion.

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny.

Dangosyddion

- Y defnydd o wahanol wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.
- Nifer y cynlluniau neu bolisiau iaith Gymraeg.
- Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg.

Ers cyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'r modd y mae dinasyddion Cymraeg eu hiaith yn cael gwasanaethau yn eu dewis iaith wedi'i newid yn llwyr. Rhoddodd Deddf 1993 y pŵer i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus lunio cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r mesurau y bydd cyrff cyhoeddus yn eu dilyn o ran eu defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Gwneir hyn er mwyn gweithredu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cymeradwyo dros 550 o gynlluniau iaith Gymraeg statudol ers 1993. Yn ddiamau mae'r Gymraeg ynghyd â siaradwyr Cymraeg wedi elwa ar hyn, gan fod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Ceir tystiolaeth helaeth fod poblogaeth Cymru'n cefnogi gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg. Mae dros naw o bob deg o siaradwyr Cymraeg (gydag amrywiol lefelau o ruglder) o'r farn bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fyw. Yn arbennig, hoffai defnyddwyr gwasanaethau weld cynnydd yn nifer y gwasanaethau wyneb yn wyneb cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

Fodd bynnag, dengys tystiolaeth fod pobl yn parhau i wynebu rhwystrau wrth geisio manteisio ar wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r prif rwystrau'n cynnwys diffyg cyflenwad o wasanaethau yn y Gymraeg gan y cyrff hynny nad ydynt yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg,

diffyg defnydd o wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg a diffyg ymwybyddiaeth bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y Gymraeg.

Bydd Mesur y Gymraeg yn manteisio ar lwyddiant cynlluniau iaith Gymraeg er mwyn sicrhau rhagor o eglurder a chysondeb ar gyfer dinasyddion o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Drwy greu cyfres o safonau y gellir eu gorfodi y nod yw newid y pwyslais, gan hoelio sylw ar fynd ati yn fwy effeithiol a thrwyadl i ddarparu a hybu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a ddisgrifir uchod.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Llywodraeth Cymru sy'n gosod y cyd-destun polisi ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar draws sawl sector, ac rydym yn cyflenwi rhai gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae'n allweddol, felly, ein bod yn defnyddio ein dylanwad er lles y Gymraeg ac yn prif ffrydio ystyriaethau yn ymwneud ag anghenion siaradwyr Cymraeg i'n gwaith o ddatblygu polisi a chyflenwi gwasanaethau.

Gyda hynny mewn golwg, rydym yn cydnabod bod newid sylweddol yn mynd rhagddo yn y berthynas ariannu rhwng y rheini sy'n comisiynu gwasanaethau a'r rheini sy'n eu darparu – pa un a ydynt yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Mae'r newid hwn, o fodel sy'n seiliedig ar grantiau i fodel comisiynu a chaffael, yn un a fydd i'w weld yn fwy aml ac mae goblygiadau ynghlwm wrth hyn o ran y ffordd y gallwn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael. At y diben hwn, wrth ddyfarnu grantiau neu gontractau byddwn yn cynnwys amodau, fel y bo'n briodol, mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg. Bydd modd i'r Comisiynydd hefyd ddylanwadu ar weithdrefnau caffael a gweithdrefnau dyfarnu grantiau sefydliadau amrywiol iawn, drwy ddatblygu safonau perthnasol.

Byddwn hefyd yn parhau i geisio dylanwadu ar adrannau Llywodraeth y DU drwy eu hannog i ddarparu gwasanaethau Cymraeg eu hiaith i ddinasyddion Cymru. Bydd Mesur y Gymraeg hefyd yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod safonau ar adrannau Llywodraeth y DU.

Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sectorau er mwyn sicrhau bod y strategaeth hon yn llwyddo.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau ar gyfer dinasyddion mae gan **awdurdodau lleol** ran allweddol i'w chwarae yn y broses cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Mae eu gwaith yn hyn o beth yn cynnwys

addysg Gymraeg, darpariaeth chwarae, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cymdeithasol, tai, datblygu ac adfywio cymunedol, cynllunio, a pholisiau datblygu economaidd y cyfeiriwyd atynt eisoes o dan faes strategol 3.

Mae cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes **iechyd a gofal cymdeithasol** yn flaenoriaeth, gan fod yr iaith yn y cyd-destun hwn, i lawer o bobl, yn fwy na dim ond mater o ddewis – mae'n fater o angen. Er bod arweiniad gwerthfawr wedi'i roi yn hyn o beth yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n amlwg fod y ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg yn parhau'n dameidiog ac yn rhy aml dim ond drwy hap a damwain y mae pobl yn cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Byddwn felly yn cyhoeddi Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fydd yn ceisio sicrhau ein bod yn mynd ati mewn ffordd fwy strategol i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog. Bydd y fframwaith strategol yn gosod safonau ar gyfer y sector a hefyd yn gwella profiad cleifion a defnyddwyr gwasanaethau sydd naill ai'n dewis gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, neu y mae angen gwasanaethau o'r fath arnynt.

Er nad yw cyfrifoldeb dros y **sector cyfiawnder** yng Nghymru wedi'i ddatganoli, mae'n bwysig cofio bod y sector hwn wedi bod yn gyfrwng i godi statws y Gymraeg. Mae llawer wedi'i gyflawni hefyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt drwy gyfrwng y Gymraeg. Er hynny, mae angen parhau i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector, gan gynnwys o fewn llysoedd – a byddwn yn cefnogi'r gwaith y mae angen ei wneud i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Mae cyrff sy'n cynrychioli'r **sector preifat** wedi dweud eu bod yn cefnogi'r angen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a hefyd wedi nodi'n gwbl glir y byddai'n well ganddynt weld hyn yn digwydd yn wirfoddol. Serch hynny, bydd modd i'r Comisiynydd osod safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y cwmnïau hynny sydd o fewn cwmpas y Mesur megis cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau. Byddwn hefyd yn croesawu unrhyw gamau gan gwmnïau i ymuno â'r system safonau, sy'n bosibl o dan y Mesur. Ar gyfer gweddill y sector, y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am annog a chynghori'r sector preifat o ran eu defnydd gwirfoddol o'r Gymraeg, ac rydym yn awyddus i weld rhagor o bolisiau iaith Gymraeg gwirfoddol yn cael eu mabwysiadu gan gwmnïau'r sector preifat. Byddwn ni, fel Llywodraeth Cymru, hefyd yn sicrhau ein bod yn cyfleu negeseuon positif ynghylch pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg i'r cwmnïau yr ydym yn ymdrin â nhw. Bydd y gwaith iaith-Economi a ddisgrifir o dan faes strategol 3 yn creu cyfle i ni wneud hynny.

Mae'r **trydydd sector** yn un o elfennau eraill hanfodol ein strategaeth. Mae'r sefydliadau sydd yn y sector hwn yn cyffwrdd â bywydau llawer iawn o bobl yng Nghymru, er enghraifft, drwy gynnig gofal a chefnogaeth, drwy weithio gyda chymunedau, a thrwy ddenu pobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol iawn. O'r herwydd mae'n bwysig sicrhau bod sefydliadau'r trydydd sector yn cael eu hannog a'u cynorthwyo cymaint â phosibl i ddefnyddio'r Gymraeg. Eto i gyd, bydd y Comisiynydd yn gyfrifol am annog a chynghori'r trydydd sector i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel wirfoddol, gan ddatblygu gwaith Estyn Llaw (cynllun sy'n cynnig cymorth ymarferol i grwpiau cymunedol a grwpiau gwirfoddol er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg). Bydd y Comisiynydd hefyd yn gallu gosod safonau yn ymwneud â'r Gymraeg ar y sefydliadau hynny sy'n rhan o gwmpas y Mesur, er enghraifft sefydliadau sy'n derbyn £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus bob blwyddyn. Yn unol â'r Compact rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector, a lansiwyd yn 2010, byddwn ni, fel Llywodraeth Cymru, yn sicrhau ein bod yn cyfleu negeseuon positif i sefydliadau'r trydydd sector yr ydym yn ymdrin â nhw ynghylch pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg. Ymysg y sefydliadau hyn mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Pwyntiau gweithredu

Byddwn yn:

Y sector cyhoeddus

31. Sicrhau, gan gynnwys trwy wneud safonau priodol ar gyfer y Gymraeg a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau, bod y cyrff cyhoeddus sy'n darparu neu'n ariannu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yn cymryd camau i ddarparu rhagor o'r gwasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg – a'u bod yn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn annog siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio.
32. Cyhoeddi a gweithredu fframwaith strategol er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.

Y sector preifat

33. Gofyn i'r Comisiynydd hybu defnydd gwirfoddol y sector preifat o'r Gymraeg – ac annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y gwasanaethau hynny.
34. Gwneud safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau – a sicrhau bod amodau priodol o ran y defnydd o'r Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth i grantiau a chontractau gael eu dyfarnu i gwmnïau'r sector preifat gan gyrff cyhoeddus.

Y trydydd sector

35. Gofyn i'r Comisiynydd hybu defnydd gwirfoddol y trydydd sector o'r Gymraeg – ac annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y gwasanaethau hynny.
36. Gwneud safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gyrff y trydydd sector sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – ac i sicrhau bod amodau priodol o ran y defnydd o'r Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth i grantiau a chontractau gael eu dyfarnu i gyrff y trydydd sector gan gyrff cyhoeddus.

Maes strategol 6: Y seilwaith

Nod

Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith.

Y canlyniad a ddymunir

Bod mwy o adnoddau ac arfau ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn yr amgylchedd digidol.

Dangosyddion

- Nifer y llyfrau Cymraeg, e-lyfrau a chylchgronau (heb gynnwys addysg) a werthir.
- Y nifer sy'n darllen *Go/wg 360*.
- Ffigyrau dosbarthu ar gyfer y papurau bro.
- Ffigyrau gwyllo a gwranddo ar gyfer S4C a Radio Cymru.
- Pa mor gyffredin yw gwefannau poblogaidd sydd wedi datblygu rhyngwynebau Cymraeg.
- Pa mor gyffredin yw banciau, cwmnïau ffonau symudol ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg.

Cred Llywodraeth Cymru fod angen seilwaith cryf ar yr iaith a fydd yn adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru ac a fydd hefyd yn helpu'r rheini sydd am ddefnyddio'r iaith.

Er mwyn cryfhau seilwaith y Gymraeg, mae ymchwil yn awgrymu bod angen i ymgyrchoedd marchnata a hybu mewn perthynas â'r Gymraeg dargedu grwpiau iau, bod angen manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg fel y we a'r cyfryngau cymdeithasol newydd, a bod angen ei gwneud hi'n haws i fanteisio ar y cyfryngau a'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael, a'u gwneud yn fwy perthnasol.

Mae gan yr holl wahanol ffurfiau ar y cyfryngau ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r gallu i fanteisio ar lyfrau, radio a theledu Cymraeg o safon uchel yn ogystal â deunydd ar-lein yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr iaith yn ffynnu. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, gwelsom fod y cyfryngau darlledu wedi chwarae rôl bwysig, drwy gyfrwng y radio a'r teledu, yn datblygu ac yn diogelu'r Gymraeg. Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae'r ffaith bod modd defnyddio'r cyfryngau digidol a'r apps Cymraeg nid yn unig yn caniatáu i'r iaith ffynnu ond hefyd yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn llawn yn yr oes ddigidol hon. Maent hefyd yn dangos i bawb fod y Gymraeg yn gyfrwng modern, creadigol, grymus, sy'n gallu addasu.

Cynnwys a meddalwedd ddigidol

Dylai sicrhau bod modd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio cyfryngau electronig drwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, fod yn uchelgais gennym; ni ddylem ddisgwyl llai na hynny. Dylai hynny fod yn bosibl at ddibenion diwylliannol, dod o hyd i wybodaeth, adloniant, hamdden, siopa, cynnal trafodion, neu at ddibenion cymunedol, hanes teulu neu rwydweithio cymdeithasol.

Mae dewis ehangach o wasanaethau digidol Cymraeg eu hiaith wrthi'n cael ei ddatblygu, gan fanteisio ar lwyddiannau blaenorol fel y bartneriaeth gynhyrchiol rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Microsoft a sefydliadau eraill; gwaith Canolfan Bedwyr i ddatblygu sawl gwasanaeth a phecyn meddalwedd; a'r gwaith a wneir gan gymuned o wirfoddolwyr brwd i ddatblygu nifer o becynnau meddalwedd a gwasanaethau ar-lein fel cyfieithu Facebook i'r Gymraeg. Yn ogystal â hyn, mae amryfal fentrau 'lleoli' sy'n defnyddio meddalwedd ffynhonnell agored wedi'u datblygu, sy'n cynnwys mentrau a noddir gan brosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel Cymunedau@Ei Gilydd a'i olynnydd, Cymunedau 2.0, a mentrau a arweinir gan y sector preifat fel peiriannau arian parod cyfrwng Cymraeg a chanolfannau galwadau.

Mae pethau'n newid yn syfrdanol o gyflym. Fis Rhagfyr 2011, cafodd yr e-lyfrau Cymraeg cyntaf eu lansio ar gyfer Kindle; cafodd app ei lansio ar yr iPad ar gyfer cylchgrawn *Go!wg*; a bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymgynghori ar y derminoleg Gymraeg i'w defnyddio ar Twitter – hyn oll mewn mis.

Mae'n siŵr y bydd rhywfaint o'r datblygiadau hyn yn cael eu hysgogi gan y galw ymhlith defnyddwyr a mentrau ar gyfer defnyddwyr. Serch hynny, mae'n debyg y bydd anghysondeb yn y datblygiadau hyn felly mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae drwy arwain ar hyn. Bydd sawl agwedd ar y rôl hon:

- annog darparwyr gwasanaeth amlwg o fewn y sector preifat, gan gynnwys banciau, siopau, cwmnïau ffonau symudol, datblygwyr meddalwedd a chaledwedd, ac eraill i ddatblygu meddalwedd, rhyngwynebau a gwasanaethau ar-lein cyfrwng Cymraeg
- ei gwneud hi'n haws i ddatblygu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer cyfryngau rhwydweithio cymdeithasol cyffredin, gan gynnwys meddalwedd ffynhonnell agored
- darparu, ar sail gyfatebol o bosibl, gyllid sbarduno ar gyfer mentrau fel y rhain ar sail gynyddol dros amser

- datblygu consensws ynghylch meysydd blaenoriaeth lle y mae angen buddsoddiad technolegol
- sicrhau bod y sector cyhoeddus yn datblygu arferion gorau yn y maes hwn
- hybu enghreifftiau o arferion gorau o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Byddwn yn ystyried a fyddai modd trwyddedu unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru mewn technoleg cyfrwng Cymraeg drwy drwydded 'Creative Commons'.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o enwau parth lefel uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer Cymru.

Technoleg mewn addysg

Mae datblygu seilwaith yn agwedd ganolog ar y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* a gyhoeddwyd yn 2010. Dylai'r strategaeth newydd hon ar gyfer yr iaith gael ei darllen ar y cyd â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg sydd eisoes mewn grym. Mae'r broses o uno Uned y Gymraeg ac Uned y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ffurfio Is-adran y Gymraeg newydd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

Yn ogystal â hyn, mae angen ystyried a fyddai modd gosod meddalwedd cyfrwng Cymraeg a rhyngwynebau Cymraeg ar bob gorsaf waith mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru, a fyddai'n cynnig dewis iaith. Byddwn hefyd yn ystyried y defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â'r Rhith-Amgylcheddau Dysgu a ddefnyddir mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Bydd hyn yn datblygu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (GCaD) Cymru o dan gontract ar gyfer Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn parhau â'n trafodaethau ag Apple ynghylch datblygu safle iTunes U ar gyfer Cymru. Rydym hefyd yn trafod yr angen am fersiwn Gymraeg o'r platfform.

Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys BBC Cymru Wales, S4C ac ITV Wales, yn ddiweddar fel cynhyrchydd rhaglenni, wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu. Er nad yw darlledu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud ei gorau i sicrhau bod darlledu yn y Gymraeg yn parhau i ddatblygu a gwella, yn enwedig yn sgil trafodaethau diweddar ynghylch dyfodol ac annibyniaeth olygyddol S4C. Yn ogystal, yn 2009 daeth

Llywodraeth Cymru yn un o brif noddwyr gwasanaeth newyddion ar-lein cyfrwng Cymraeg, sef *Go/wg 360*, drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid er mwyn galluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gaffael a datblygu mynediad i'r cyhoedd i archif teledu ITV Wales drwy Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru. Mae archif ITV Wales yn cwmpasu gwerth dros 50 o flynyddoedd o raglenni cyfrwng Cymraeg.

Mae amrywiaeth a safon rhaglenni Cymraeg ar S4C a BBC Radio Cymru yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fodern ac yn rhan o fywyd bob dydd yng Nghymru. Mae'r darlledwyr hefyd yn helpu i greu mwy o ymwybyddiaeth ynghylch yr iaith ymhlith y bobl hynny sy'n gallu siarad Cymraeg a'r bobl hynny na allant ei siarad. Mae gwasanaethau S4C ar gyfer plant, gan gynnwys Cyw a Stwnsh, yn cael eu cydnabod fel gwasanaethau sy'n gwneud cyfraniad pwysig o ran normaleiddio'r iaith i blant o bob oedran. Mae'r BBC ac S4C wedi cyflawni rôl bwysig wrth helpu pobl o bob cefndir ddysgu'r Gymraeg, drwy wahanol adnoddau darlledu ac adnoddau ar-lein.

Mae S4C a BBC Cymru Wales ill dau eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau fel yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol ac eraill sy'n gweithio yn y gymuned i hybu'r Gymraeg. Er enghraifft, mae BBC Radio Cymru a'r mentrau iaith yn cynnal cystadleuaeth Brwydr y Bandiau bob blwyddyn sy'n boblogaidd iawn ymysg pobl ifanc ac sy'n gyfrwng pwysig i feithrin doniau cerddorol yn y Gymraeg. Rydym yn gobeithio y byddant yn parhau i gyflawni'r rôl hon yn y dyfodol.

Eto i gyd, nid yw gwasanaethau ar-lein cyfrwng Cymraeg wedi derbyn yr un flaenoriaeth â gwasanaethau cyfrwng Saesneg. Gobeithiwn y bydd y trefniadau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer y berthynas rhwng S4C a'r BBC yn arwain at ddarpariaeth gynyddol o ddeunyddiau cyfrwng Cymraeg ar-lein, a fydd ar yr un lefel â'r hyn a ddarperir yn y Saesneg.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn cael ei diogelu a'i datblygu'n effeithiol gan gyrrff rheoleiddio fel Ofcom.

Darllen

Mae ymchwil wedi dangos bod cysylltiad rhwng y graddau y mae plant yn darllen Cymraeg a'u gafael ar yr iaith. Felly, os ydym am annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith a sicrhau eu bod yn hyderus i wneud hynny, bydd eu helpu i ddod yn fwy llythrennog a chyfarwydd â Chymraeg ysgrifenedig yn bwysig. Er mwyn gwireddu'r nod hwn, bydd annog siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn arbennig, i ddarllen amrywiaeth eang o ddeunyddiau Cymraeg – boed yn llyfrau, yn gylchgronau, yn bapurau bro, yn wefannau ac yn flogiau – yn bwysig. Wrth wneud hynny mae'n hanfodol sicrhau nad yw'r Gymraeg ar ei hôl hi o ran y datblygiadau diweddaraf, er enghraifft, drwy sicrhau bod darpariaeth eang o e-lyfrau ar gael ar draws yr holl ddyfeisiau cyfredol.

Trwy Gyngor Llyfrau Cymru, rydym yn bwriadu cynnal y cymorth golygyddol sy'n cael ei roi i gwmnïau cyhoeddi a pharhau i roi cymorth i awduron i ddatblygu gwaith graffeg, ffotograffiaeth a dylunio o safon sy'n arbennig o bwysig mewn llyfrau ffeithiol i oedolion a phobl ifanc.

Byddwn yn disgwyl i gomisiynwyr allweddol deunyddiau Cymraeg, sy'n cynnwys Cyngor Llyfrau Cymru a sefydliadau eraill, gynyddu'n sylweddol nifer y deunyddiau sy'n cael eu cyhoeddi'n electronig.

Terminoleg

Mae'n bwysig sicrhau bod ffynhonnell safonol o derminoleg yn bodoli sy'n ei gwneud hi'n haws i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd cyhoeddus, gan gynnwys maes technoleg, byd y gyfraith, y byd addysg ac amryw feysydd arbenigol. Dros gyfnod o flynyddoedd, cafodd llawer o waith safoni ei wneud gan nifer o sefydliadau gan gynnwys Canolfan Bedwyr (sydd wedi sefydlu Porth Termau Cenedlaethol Cymru), Pwyllgor Iaith a Llên Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru, Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru (sy'n rhannu termau Llywodraeth Cymru ar-lein drwy TermCymru) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg (sy'n cyhoeddi ei dermau ar-lein drwy ei Gronfa Genedlaethol o Dermau).

O fis Ebrill 2012 y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am gydgylltu datblygiadau ym maes terminoleg ac enwau lleoedd Cymraeg.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall yr iaith elwa ar eiriadur Cymraeg safonol ar-lein, a fydd yn seiliedig ar y buddsoddiad sylweddol y mae eisoes wedi'i ymrwymo i'r prosiect hwn dros amser.

Cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Rhaid bodloni'r galw am gyfieithwyr proffesiynol a chyfieithwyr ar y pryd proffesiynol sy'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn diwallu'r angen am ddogfennau dwyieithog a chyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae'r diwydiant wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn cydnabod bod angen parhau â'r gwaith hwn, gan wneud yn siŵr fod yna strwythurau achredu a rheoleiddio cadarn yn eu lle i sicrhau ansawdd.

Yn ogystal â hynny, mae angen datblygu ymhellach yr hyfforddiant sydd ar gael i gyfieithwyr, gan gynnwys hyfforddiant mewn arddulliau cyfieithu gwahanol, golygu, prawfddarllen, cyfieithu ar y pryd a drafftio'n ddwyieithog. Rhaid i ni sicrhau hefyd fod y proffesiwn cyfieithu yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r offer TGCh sydd ar gael er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, cysondeb a gwerth am arian.

Mae potensial i gyrff cyhoeddus gydweithio er mwyn manteisio ar gyfleoedd i sicrhau gwell arbedion effeithlonrwydd, a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau prin, wrth ddarparu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg. Bydd gwaith yn mynd rhagddo maes o law i ystyried cynigion ar gyfer rhagor o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill wrth ddarparu a chaffael y gwasanaethau hyn.

Mae'r strategaeth hon eisoes wedi cyfeirio at bwysigrwydd cyfieithu i weithgareddau cymunedol o dan faes strategol 3. Bydd annog a chefnogi mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith o dan yr amgylchiadau hyn yn bwysig.

Mae'n bwysig fod pobl yn teimlo'n ddigon hyderus i ddrafftio dogfennau yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Wrth i nifer cynyddol o sefydliadau ac unigolion ddefnyddio'r iaith bydd yn dod yn gynyddol bwysig i gyrff cyhoeddus sicrhau bod ganddynt staff a all ymdrin â dogfennau a gyflwynir yn y Gymraeg, yn hytrach na bod yn rhaid eu cyfieithu i'r Saesneg, i'w defnyddio'n fewnol yn unig. Bydd y gwaith o dan faes strategol 4, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, yn helpu i ddatblygu'r gallu hwn.

Ymchwil a data

Mae'r holl bolisiau a'r prosiectau a drafodir yn y strategaeth hon wedi'u cynnwys gyda'r nod o sicrhau canlyniad dymunol penodol: cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Gan hynny, er mwyn profi pa mor effeithiol yw'r gwaith hwn, mae angen data sylfaenol

ynghylch defnydd iaith a phroses o gasglu data yn rheolaidd er mwyn ein galluogi ni i fonitro cynnydd yn unol â'r canlyniad a ddymunir. Mae'r strategaeth hon eisoes wedi trafod pwysigrwydd hyn a'n bwriad i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer y strategaeth. Byddwn hefyd yn pennu yr angen i ystyried y Gymraeg wrth i ni ddatblygu ein prosiectau ymchwil a'n prosiectau data ein hunain ar draws ein holl feysydd polisi – ac wrth i ni gydweithio â chyrrff eraill, fel y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Bydd gan y Comisiynydd hefyd rôl allweddol ym maes ymchwil a data. Mae Mesur y Gymraeg yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i lunio adroddiad bob pum mlynedd ar sefyllfa'r iaith. At y diben hwn, bydd gan y Comisiynydd y pwerau angenrheidiol i wneud gwaith ymchwil ac i gasglu a dadansoddi data.

Cynllunio ieithyddol

Mae gan lawer o bobl ar draws sectorau amrywiol rolau pwysig er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth hon – gan gynnwys gweision sifil yn Llywodraeth Cymru, staff y Comisiynydd, swyddogion o fewn sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, a staff sy'n gweithio i gyrff yn y trydydd sector sy'n ceisio hybu'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae angen sicrhau bod y rheini sydd yn ymwneud â chynllunio ieithyddol yn parhau i ddatblygu eu sgiliau yn y maes hwn.

Wrth wneud hyn mae angen i ni gynnal y cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd a rhanbarthau eraill sy'n ceisio hybu ieithoedd lleiafrifol fel y gallwn elwa ar eu profiadau. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cynnwys y Rhwydwaith Ewropeaidd i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol a'r Cyngor Prydeinig–Gwyddelig. Byddwn hefyd yn cynnal ein perthynas unigryw â Phatagonia.

Hybu gwerth y Gymraeg

Elfen a fydd yn hanfodol wrth roi'n strategaeth ar waith fydd codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg. I lawer o'r sefydliadau a fydd yn rhan o'r prosiectau a'r mentrau a ddisgrifir yn y strategaeth hon, mae hyn yn rhan annatod o'u gwaith. Serch hynny, mae gan weithgareddau marchnata a hysbysebu rôl bwysig hefyd wrth hybu gwerth y Gymraeg ac annog y defnydd ohoni.

Mae pobl ifanc yn grŵp targed allweddol mewn perthynas â hybu gwerth y Gymraeg. Mewn mannau eraill yn y ddogfen hon cyfeiriwn at yr angen i ddeall yn well y dewisiadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud wrth benderfynu pa iaith i'w defnyddio. Mae angen i hyn ddigwydd ochr yn ochr â gwella'r gwaith o hybu manteision y Gymraeg fel sgil wrth ddod o hyd i waith yn y dyfodol.

Bydd rhaid i unrhyw waith o farchnata gwerth y Gymraeg fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Pwyntiau gweithredu

Byddwn yn:

Cynnwys a meddalwedd ddigidol

37. Parhau i ddiweddarau Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer TGCh a'r Gymraeg, a fydd yn cynnwys pwyslais ar rôl gynyddol bwysig y cyfryngau cymdeithasol.
38. Llunio safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg a TGCh.
39. Hybu'r defnydd o fersiynau Cymraeg o gynnyrch meddalwedd mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.
40. Sefydlu pwyllgor ar y Gymraeg, TGCh a'r cyfryngau newydd, a sefydlu trefniant ariannu ar gyfer datblygiadau cyfrwng Cymraeg ym maes TGCh a'r cyfryngau newydd, ar sail gynyddol yn unol â blaenoriaethau cymeradwy.
41. Ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Llyfrau Cymru a CBAC gomisiynu nifer cynyddol o ddarnau fel cyhoeddiadau ar-lein yn unig.

Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

42. Cefnogi S4C a BBC Radio Cymru a pharhau i bwysleisio i Lywodraeth y DU a'r BBC bwysigrwydd diogelu a datblygu'r holl wasanaethau amrywiol sy'n cael eu cynnig ganddynt, gan gynnwys eu gwasanaethau ar-lein.
43. Ymchwilio ar y cyd ag eraill bosibilrwydd cynyddu'r ddarpariaeth o raglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol sy'n gweithredu yng Nghymru.

Darllen

44. Parhau i gefnogi gwaith Cyngor Llyfrau Cymru a'r papurau bro a chefnogi'r gwaith o ymchwilio i e-gyhoeddi a dulliau newydd o dderbyn deunyddiau ysgrifenedig a manteisio arnynt.
45. Parhau i ddarparu cymorth ariannol i Golwg 360 hyd fis Mawrth 2014, drwy Gyngor Llyfrau Cymru, ac adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Cyfieithu

46. Gofyn i'r Comisiynydd gefnogi a datblygu'r diwydiant cyfieithu.

Terminoleg

47. Gofyn i'r Comisiynydd gydgyssylltu'r gwaith o safoni terminoleg ac enwau lleoedd Cymraeg.

Ymchwil a data

48. Gofyn i'r Comisiynydd gynnal gwaith ymchwil a pharatoi adroddiad bob pum mlynedd ar sefyllfa'r iaith, yn unol â Mesur y Gymraeg.

49. Chwilio am gyfleoedd i gydweithio â'r Comisiynydd, yn ôl yr angen, ar brosiectau ymchwil a data.

50. Prif ffrydio'r Gymraeg yn ein hymchwil a'n gwaith o gasglu data ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Gyrfa Cymru.

Cynllunio ieithyddol

51. Cefnogi'r gwaith o feithrin a datblygu'r proffesiwn cynllunio ieithyddol.

Hybu gwerth y Gymraeg

52. Datblygu strategaeth farchnata gydgyssylltiedig ar gyfer yr iaith, gan gynnwys marchnata sydd ynghlwm wrth brosiectau a gweithgareddau sy'n cefnogi'r iaith – a gwneud hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys sefydliadau a grëwyd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

